



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

Welsh Ambulance Services
NHS Trust

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans
Cymru

Cynllun Tymor Canolig Integredig

2024-2027



Cynnwys

Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr	3
Crynodeb Gweithredol.....	4
Cyflwyniad.....	8
1. Ein Strategaeth Hirdymor.....	8
1.1 Ein Pwrpas.....	8
1.2 Ein Nodau Strategol.....	8
1.3 Esblygu a Thrawsnewid ein Cynigion Gwasanaeth	9
2. Ein Prif Gyflawniadau yn 2023/24	11
3. Heriau a Chyfleoedd sy'n llywio ein cynllun	12
3.1 Beth mae ein cleifion yn ei ddweud am ein gwasanaeth?.....	12
3.2 Beth yw blaenoriaethau ein cydweithwyr?	13
3.3 Ein cyd-destun gweithredol ac ariannol	14
3.4 Beth yw ein sbardunau deddfwriaethol, strategol, ariannol a pholisi?	15
3.5 Beth mae ein comisiynwyr yn ei ddweud?	16
3.6 Beth yw'r risgiau yr ydym yn eu rheoli?.....	17
3.7 Sut rydym yn ffocysu ein cynllun	18
4. Ein Cleifion	19
4.1 GIG 111 Cymru	19
4.2 Gwasanaethau Meddygol Brys (EMS) - 999.....	23
4.2.1 Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys a gweithrediadau arbenigol	31
4.2.2 Gwirfoddolwyr	31
4.3 Gofal Ambiwlans	32
4.4 Sut y bydd cynlluniau strategol byrddau iechyd yn effeithio arnom ni?.....	35
5. Ein pobl	36
5.1 Proffil ein Gweithlu	36
5.2 Pobl a Diwylliant.....	37
5.3 Y Gymraeg.....	40
6. Isadeiledd – cyfalaf, fflyd ac ystadau	41
7. Ein map trywydd digidol	44
8. Partneriaethau a'r system ehangach	46
8.1 Partneriaethau ac ymgysylltu	46
8.2 Partneriaeth academaidd a dysgu democrataidd.....	47
9. Wedi'i lywio gan ansawdd a'i arwain yn glinigol	50
9.1 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu Cymru).....	50
9.2 Wedi'i arwain yn glinigol	52
9.3 Wedi'i lywodraethu'n dda	53
10. Gwerth a chynaliadwyedd	55
10.1 Rhaglen cynaliadwyedd ariannol.....	55
10.2 Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth.....	56
10.3 Cynaliadwyedd amgylcheddol.....	57
11. Ein cynllun ariannol	58
12. Cyflawni ein cynllun.....	60
12.1 Risgiau i gyflawni	60
12.2 Rheoli trawsnewid.....	61
Cwestiynau.....	62

Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Mae'n bleser gennym gyhoeddi ein Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024-27, cynllun sy'n nodi'r hyn sydd angen i ni ei wneud fel darparwr gwasanaethau gofal brys ac argyfwng a gwasanaethau cludiant wedi'u cynllunio i drawsnewid er budd ein cleifion, ein pobl a gwerth a chynaliadwyedd mewn partneriaeth â'r system ehangach.

Mae ein pobl yn gweithio mewn system iechyd a gofal sy'n parhau i weld pwysau di-ildio ar yr amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir ledled Cymru. Fel darparwr cenedlaethol rydym yn teimlo'r pwysau hyn hefyd, ond rydym hefyd yn cydnabod meysydd lle gallwn wella, bod yn fwy effeithlon a diwallu anghenion ein comisiynwyr, tra'n parhau i ganolbwyntio ac esblygu ein taith drawsnewid strategol tuag at ein gweledigaeth 2030 a nodir yn ein strategaeth hirdymor 'Sicrhau Rhagoriaeth'.

Rydym hefyd yn gweithio mewn sector sydd wedi dod o dan y chwyddwydr oherwydd ei ddiwylliant a'i ymddygiadau gwael. Rydym am i'n pobl weithio mewn diwylliant lle gallant deimlo'n ddiogel yn seicolegol ac yn gorfforol. Byddwn yn parhau â'r gwaith rhagweithiol, felly, i fynd i'r afael â materion a godwyd drwy ein hadolygiad o Rywiaeth a Diogelwch Rhywiol yn y gweithle, gan wneud yr Ymddiriedolaeth yn fan lle mae pobl yn teimlo'n rhydd i godi llais yn erbyn ymddygiadau o'r fath yn ogystal â hyrwyddo ein gwaith ar amrywiaeth, cynhwysiant a chynghreiriaeth.

Wrth wraidd ein gwasanaethau mae ein hymateb i bobl sydd â'r anghenion iechyd mwyaf critigol sy'n bygwth bywyd. Gwyddom nad yw llawer o'r bobl hyn yn cael y gwasanaeth sydd ei angen arnynt ac mae llawer ohonynt naill ai'n dod i niwed yn y gymuned neu'n mynd â'u hunain i'r ysbyty pan fo'r amser aros am ambiwlansys yn rhy hir. Mae ein cynllun yn nodi sut rydym am drawsnewid ein gwasanaethau i ddiogelu'r adnoddau sy'n cludo pobl i'r ysbyty drwy ddarparu gwasanaethau clinigol o bell ac yn y gymuned i'r cleifion sy'n ffonio 111 neu 999.

Rydym mewn sefyllfa unigryw yn GIG Cymru, sefyllfa lle gwelwn gyfle i ddiwallu'r galw gan ein cleifion mewn ffordd wahanol. Nid cynllun i gamu i'r gofodau a feddiannir gan ein partneriaid iechyd a gofal presennol yw hwn ond cynllun cydweithredol sy'n ceisio gwneud y gorau o'r sefyllfa unigryw hon.

Rydym yn cychwyn ar gyfnod newydd o gomisiynu iechyd a gofal yng Nghymru lle bydd gwasanaethau arbenigol ac ambiwlans yn cael eu comisiynu gan Gyd-bwyllgor, gan gyflwyno cyfleoedd inni gydbwysu gofynion craidd ein holl wasanaethau â'n cynnig trawsnewid. Ein nod hefyd drwy'r cynllun hwn yw cyflawni yn erbyn blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran cefnogi'r Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, lle rydym yn gweld ein hunain yn chwarae mwy o ran yn cefnogi'r system yn gynyddol.

Mae ein cynllun yn seiliedig ar ddarparu'r **gofal a'r cyngor cywir, yn y lle iawn, bob tro** drwy ddarparu gwasanaethau sy'n cael **eu llywio gan ansawdd**, sy'n cael eu **harwain yn glinigol** ac sy'n **canolbwyntio ar werthoedd**. Bydd cyflawni'r cynllun hwn yn rhoi mwy o bwyslais ar asesu a gofal o bell ac yn y gymuned, cau achosion o bell ac yn y gymuned yn ddiogel a heb yr angen i deithio ymlaen i Adrannau Achosion Brys oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol. Byddwn hefyd yn cyflawni ein rhwymedigaethau statudol gan gynnwys balans ariannol.



Jason Killens
Prif Weithredwr

Diolch i chi am gymryd yr amser i ddarllen ein cynllun, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chydweithwyr, cleifion, a phartneriaid wrth inni barhau i gyflawni'r gwelliannau i'n gwasanaethau a fydd o fudd i boblogaeth Cymru.

I Gefnogi. I Wasanaethu. I Achub.



Collin Dennis
Cadeirydd


Crynodeb Gweithredol

Wrth wraidd y Cynllun Tymor Canolig Integredig Cynllun Tymor Canolig Integredig hwn mae ein cydnabyddiaeth bod **angen dybryd o hyd i newid** y ffordd yr ydym ni a'n partneriaid yn ymateb i anghenion ein cleifion ac yn eu diwallu. Credwn yn awr fod angen i newid o'r fath ddigwydd **yn gyflym**. Mae gormod o gleifion yn parhau i gael niwed, mae gwasanaethau'n aml yn canolbwyntio ar anghenion sefydliadol gyda phrosesau aneffeithlon a hen ffasiwn yn effeithio ar brofiad y claf, ac mae'r anhawster wrth lywio ein system iechyd a gofal cymhleth yn golygu nad yw cleifion yn aml yn cael y gofal iawn yn y lle iawn ar yr amser iawn.

Mae llawer o hyn yn gwaethygu'r **pwysau ar ein pobl**, fel y gwelir mewn lefelau absenoldeb salwch a throshiant sy'n uwch nag y byddem yn ei ddymuno, er y bu gwelliannau cadarnhaol dros y ddwy flynedd diwethaf. Clywsom yn uniongyrchol gan staff yn ystod ein sioeau teithiol a thrwy arolygon am sut deimlad yw gweithio yn WAST, gyda llawer ohono yn adlewyrchu eu rhwystredigaethau.

Gyda'r sbardunau hyn ar flaen ein meddwl, a chan cydnabod yr holl waith caled mae ein pobl wedi'i wneud dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i ddod â ni at y pwynt hwn, rydym yn glir bod yn rhaid **canolbwyntio'n bwrpasol ar gyflawni tair blaenoriaeth allweddol**:

- **Trawsnewid** y ffordd yr ydym yn darparu gofal gyda phartneriaid byrddau iechyd drwy ddatblygu, cytuno a gweithredu **model ymateb clinigol newydd** a fydd yn rhoi'r cyngor a'r gofal cywir i gleifion, yn y lle iawn, bob tro ac yn lleihau niwed;
- Gwneud popeth yn ein rhodd i wella profiad **ein pobl** yn y gweithle, gan eu galluogi i fod y gorau y gallant fod; a
- Darparu **gwerth a chynaliadwyedd** eithriadol, yng nghyd-destun cyllid, yr amgylchedd a Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth .



Ein Cleifion

Cytunwyd ar '**Sicrhau Rhagoriaeth**', ein Strategaeth Hirdymor, yn 2019. Mae'n nodi uchelgais i symud oddi wrth fod yn wasanaeth ambiwlans a chludiant traddodiadol i fod yn ddarparwr gofal o ansawdd uchel y gellir ymddiried ynddo, gan sicrhau bod cleifion yn cael y '**cyngor a gofal iawn, yn y lle iawn, bob tro**', gyda mwy o bwyslais ar ddarparu gofal yn nes at y cartref. Mae'r cyfeiriad yn parhau'n iawn ar y cyfan am y pum mlynedd nesaf, ond rydym wedi ymrwymo i fireinio ein ffordd o feddwl a chytuno **ar wasanaeth clinigol a model ymateb newydd**, sy'n mabwysiadu dull mwy **cyfannol ac integredig**, gan ystyried sut mae ein gwasanaethau 999, GIG 111 a Gofal Ambiwylans yn cyfrannu at drawsnewid gofal.

Ein blaenoriaeth sylfaenol a phwysicaf erioed fu, a bydd yn parhau i fod, darparu gwasanaeth **ymateb i argyfwng** o safon fyd-eang. Mae angen i'n model clinigol newydd sicrhau bod gennym ddigon o adnoddau priodol i ddarparu'r ymateb i argyfwng cyflym hwn, gan sicrhau'r canlyniad gorau posibl i bob claf.

Ond mae'r rhai sydd angen ymateb brys yn gyfran fach o'r niferoedd cyffredinol o gleifion sy'n cysylltu â ni neu'n ein ffonio. Mae cyfran sylweddol o'n galw ar gyfer cleifion sydd ag angen iechyd difrifol neu aciwtedd

is, a gall y rhain codi naill ai drwy alwad 999 neu drwy'r system 111. Ar gyfer y cleifion hyn, ni waeth sut y maent wedi cael mynediad atom, mae angen i ni weithio gyda'n partneriaid i greu **gwasanaeth ymateb brys 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos** integredig sy'n wasanaeth mwy pwrpasol sy'n diwallu anghenion unigol cleifion yn nes at y cartref. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- **Gwasanaeth Gofal Integredig o Bell** lle bydd ein timau clinigol GIG 111 a 999 presennol yn dod ynghyd, gan weithio'n agos gyda hybiau clinigol byrddau iechyd o bell a datblygu mecanweithiau i gefnogi eu penderfyniadau clinigol, gan gynnwys mynediad at arsylwadau amser real trwy **Connected Support Cymru**;
- **gwasanaeth Ymateb Cymunedol Brys yn y fan a'r lle** sy'n darparu asesiad a thriniaeth wyneb yn wyneb. Rydym eisoes yn darparu amrywiaeth o ymatebion, megis uwch ymarferwyr, gwasanaethau cwmpadau, ymateb iechyd meddwl a pharafeddygon gofal lliniarol, ac rydym am weithio gyda byrddau iechyd i dyfu ac integreiddio'r rhain â'u gwasanaethau ymateb cymunedol eu hunain. Bydd gweithio gydag eraill i ddatblygu mynediad i lwybrau cymunedol yn allweddol i lwyddiant y timau hyn.

Bydd gan ein **gwasanaeth cludo cleifion** Gofal Ambiwlans fwy o rôl yn y dyfodol wrth gefnogi llif ar draws y system, boed hynny drwy wasanaethau rhyddhau hyblyg, cynlluniau trosglwyddo rhwng ysbytai pwrpasol ac ymatebol neu wasanaeth cludiant iechyd ar y dydd 'wedi'i gynllunio' sy'n hygyrch i Weithwyr Iechyd Proffesiynol neu ein clinigwyr ein hunain.

Mae angen **esblygiad** pellach ar ein syniadau **mewn cydweithrediad** â'n comisiynwyr, ein rhanddeiliaid system, ein pobl a'r cyhoedd yn 2024/25, ond yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig hwn rydym yn dechrau disgrifio **sut olwg fydd ar dda** ymhen tair blynedd, a sut y gall y system ddisgwyl i weld newid mesuradwy a gwelliannau mewn canlyniadau. Mae'n flaenoriaeth inni gynyddu soffistigeiddrwydd yn y ffordd yr ydym yn mesur gwelliannau system gyfan, ac yn benodol, sicrhau bod **data a gwybodaeth yn gysylltiedig** ar draws sefydliadau.

O fewn ein gwasanaeth 111, bydd ein blaenoriaethau allweddol fel a ganlyn:

- Gweithio gyda phartneriaid i greu gweledigaeth '**digidol yn gyntaf**' ar gyfer gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, sy'n debygol o ganolbwyntio ar Ap GIG Cymru, ond y byddwn yn chwarae rhan ynddi;
- Adeiladu ar ein llwyfannau digidol, gan ddarparu'r **system gwasanaeth asesu clinigol newydd** a gwneud gwelliannau i **wefan 111** (yn dibynnu ar gyllid)
- Cynnal y gwasanaeth 111 craidd trwy gynnal **niferoedd staff a gomisiynir**, cynnal adolygiad o **alw a galluedd** ac ail-drefnu rhestrau dyletswydd i diwallu'r galw yn briodol a pharhau i ddod o hyd i ffyrdd o wella **ymarfer clinigol a gwella cynhyrchiant**;
- Gweithio gyda'r rhaglen Chwe Nod a chomisiynwyr i ddatblygu **llwybrau** newydd a gwell gan gynnwys gofal deintyddol, gofal lliniarol, Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys, llinell rheoli meddyginiaethau;
- Datblygu llwybrau gyrfa deniadol a chyfleoedd sy'n cadw ac yn denu cydweithwyr, yn benodol ar gyfer clinigwyr sy'n ceisio **gyrfaoedd seiliedig ar bortffolio**.
- Gweithio gyda'r Comisiynwyr i gytuno ar **wledigaeth ar gyfer y Porth i Ofal 111** sy'n gwneud defnydd llawn o'n galluedd i alluogi atal cychwynnol yn ogystal ag ymatebion gofal brys, er enghraifft trwy ddefnyddio technolegau gwisgadwy.

Ar gyfer ein Gwasanaeth Meddygol Brys (EMS), byddwn yn gwneud y canlynol:

- **Buddsoddi yn swyddogaeth Cydgysylltu EMS a'i hailstrwythuro** gyda'r nod o wella strwythurau a chyfleoedd arweinyddiaeth a thîm, gwella effeithlonrwydd a lleihau trosiant;

- Staffio'r gwasanaeth **Uned Ymateb Aciwtedd Uchel Cymru (CHARU)** yn llawn ac adolygu'r model er mwyn gwella canlyniadau clinigol ymhellach a hybu perfformiad coch hyd at 65% erbyn blwyddyn 3;
- Cynyddu effaith a budd y Ddesg Gymorth Clinigol i'r eithaf trwy gynyddu'r galluedd gan **23 o staff cyfwerth ag amser llawn**, cyflwyno **gwasanaeth sgrinio clinigol cyflym**, a **threfnu'r gweithlu dan arweiniad clinigol** yn unol â'r model ymateb clinigol newydd;
- Tyfu ein gwasanaeth **Connected Support Cymru** sy'n cefnogi gwell penderfyniadau clinigol o bell trwy arsylwi yn y fan a'r lle, gan gynnwys lleoli 600 o **Ymatebwyr Lles Cymunedol** a 50 o ddatrysiadau **'Ambiwlans mewn Blwch'** Luscii;
- Parhau i weithio gyda byrddau iechyd trwy Gynlluniau Gweithredu Comisiynu Integredig a gwella gweithio integredig ar draws timau gyda byrddau iechyd;
- Tyfu ein gwasanaethau ymateb brys cymunedol yn y fan a'r lle. Bydd yn cynnwys
 - hyfforddi a defnyddio mwy o **Ymarferwyr Parafeddygol Uwch (APP)** i gefnogi'r Ymddiriedolaeth a'r system gofal iechyd ehangach, gydag un ar bymtheg o Ymarferwyr Parafeddygol Uwch ychwanegol wedi'u recriwtio ym mlwyddyn 1. I gefnogi'r niferoedd cynyddol, bydd rhestrau dyletswydd newydd yn cael eu cyflwyno a bydd **strwythur arweinyddiaeth a goruchwyliaeth glinigol** newydd yn cael ei gytuno a'i roi ar waith.
 - ehangu ein **model ymateb iechyd meddwl yn y fan a'r lle**;
 - ehangu darpariaeth gwasanaethau **chwmpadau Lefel 2**.
- Trwy'r newidiadau hyn, anelu at **ddyblu nifer y cleifion** rydym yn eu rheoli'n ddiogel gartref neu yn y gymuned dros y tair blynedd nesaf;
- Cyflwyno'r **achos dros newid pellach** drwy broses ymgysylltu ffurfiol â rhanddeiliaid, wedi'i hategu gan adolygiad strategol, cydweithredol a wedi'i ddiweddarau o'r galw a galluedd.
- Datblygu a chyflwyno'r achos dros fuddsoddi i fodloni argymhellion **Ymchwiliad Arena Manceinion**.

O fewn ein gwasanaeth Gofal Ambiwlans, ein prif flaenoriaeth fydd gweithio gyda chomisiynwyr i ddatblygu a chytuno ar **wledigaeth** ar gyfer y gwasanaethau pwysig hyn, gan gynnwys sut y maent yn cyfrannu at drawsnewid y system yn ehangach. Byddwn yn parhau i wneud gwelliannau mewn cynhyrchiant ac effeithlonrwydd gan gynnwys **ail-drefnu rhestrau dyletswydd** o fewn NEPTS. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda chomisiynwyr ambiwlans ar ddatblygu **model Trosglwyddo a Rhyddhau cenedlaethol**, gan ystyried yn ofalus sut y gallai hyn ddod â chydlyniad i gynnyg a allai fod yn dameidiog a gwella gwasanaethau i gleifion a llif ar draws y system.

Gwella profiad ein pobl yn y gweithle

Yr allwedd i ddarparu'r gofal cleifion gorau yw canolbwyntio ar anghenion ein pobl. Rydym yn gwrando'n weithredol, yn dysgu ac yn sicrhau ein bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â rhai o'r materion mwyaf sy'n effeithio ar brofiad bywyd beunyddiol ein cydweithwyr. Ochr yn ochr â hyn, gan gydnabod y materion diwylliannol sydd wedi dod i'r amlwg yn y sector gwasanaethau brys ehangach, rydym yn parhau i weithio i adeiladu diwylliant diogel, cadarnhaol gyda phwyslais ar les, cymorth a datblygiad, lle gallwn ddod â'n hunan gyfan i'r gwaith. Dyma elfennau craidd sefydliadau sy'n perfformio'n dda. Drwy greu'r amgylchedd hwn, bydd ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac y gellir ymddiried ynddynt ac yn profi gwir ymdeimlad o bwrpas a pherthyn a fydd yn ein galluogi i barhau i wella a chyflawni ein huchelgeisiau hirdymor.

Rydym wedi cytuno ar Gynllun Pobl a Diwylliant ar gyfer 2023-26 sy'n cefnogi ein huchelgeisiau strategol sefydliadol a fydd yn canolbwyntio ar ein tair Efen: **Diwylliant, Galluedd a Galluogrwydd**, sy'n darparu'r sail ar gyfer amcanion a chynlluniau ar gyfer ein pobl.

Rydym yn ymrwmo i barhau i weithio ar dair blaenoriaeth benodol a nodwyd gennym y llynedd fel rhai pwysig, a byddwn yn ailddyblu ein hymdrechion, gan chwilio am ffyrdd arloesol o allu gwneud gwelliannau sylweddol:

- Gwella modelau **gweithio hyblyg** ar gyfer ein cydweithwyr rheng flaen;
- Cael gwared ar **shifftiau sy'n gor-redeg**, trwy ddatrysiadau wedi'u creu ar y cyd
- Gwella **profiad digidol** ein pobl e.e. mewngofnodi symlach, awtomeiddio ac ati.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar leihau tyniadau oherwydd absenoldeb salwch. Ein nod yw dod â thyniadau oherwydd salwch i lawr i 6% yn ystod y cyfnod tair blynedd hwn, gan dderbyn bod llawer o ffactorau a fydd yn dylanwadu ac yn llywio cyflawniad.

Darparu gwerth eithriadol a chynaliadwyedd

Ategir y cynllun gan gynllun **ariannol cytbwys** sy'n parhau â'n perfformiad ariannol cryf diweddar o gydbwysu drwy gydol y flwyddyn ariannol. Er mwyn cyflawni hyn, fodd bynnag, bydd angen cyflawni targed arbedion heriol o tua £6.4m. Bydd hyn yn canolbwyntio nid yn unig ar **arbedion ac effeithlonrwydd** ond hefyd ar fanteisio'n rhagweithiol ar gyfleoedd i **greu incwm**.

Bydd cyfres o raglenni a chynlluniau galluogi helaeth yn cefnogi twf a thrawsnewidiad ein gwasanaethau craidd gan gynnwys ein Cynllun Ansawdd, Cynllun Clinigol, Cynllun Pobl a Diwylliant, Cynllun Trawsnewid Digidol a Chynllun Gwirfoddoli. Bydd y Rhaglenni Amlinellol Strategol Ystadau a Fflyd yn cael eu gyrru ymlaen yn ogystal ag, yn bwysig, gwaith i gyflawni ein cyfraniad at y GIG yng Nghymru a Chynllun Cynaliadwyedd Amgylcheddol Llywodraeth Cymru yn mynd â ni tuag at gyflawni ein **targedau carbon erbyn 2030**. Mae hyn yn rhan o'n cynllun gyda chamau gweithredu datgarboneiddio i'w gweld drwy gydol y cynllun.

Gwyddom fod y cynllun hwn yn uchelgeisiol ac rydym yn cydnabod bod risgiau i wrth ei gyflawni: mewn perthynas â'r **cyfyngiadau ariannol** ar draws y system; mewn perthynas ag ystod o ffactorau allanol y mae gennym reolaeth gyfyngedig drostynt; ac mewn perthynas ag effeithiau posibl symud i **drefniadau comisiynu newydd**. Byddwn yn **cryfhau cymorth** i nifer o'n strwythurau a'n rhaglenni trawsnewid i leihau risgiau.

Fodd bynnag, nid yw'r camau y byddwn yn eu cymryd yn eistedd mewn gwagle ac maent yn gyson â'r uchelgeisiau a osodwyd ar ein cyfer yn benodol drwy ein **bwriadau comisiynu** ac yn ehangach ar gyfer y system ehangach drwy'r **Rhaglen Chwe Nod**.



Rydym yn gwbl falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni dros y 12 mis diwethaf. Yr allwedd yn awr fydd deialog ac ymgysylltu parhaus yn fewnol ac yn allanol, yr ydym wedi ymrwmo i'w wneud er mwyn sicrhau gwell gwasanaeth i bobl Cymru.

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) ar gyfer 2024-27, sydd wedi'i ysgrifennu yn unol â Fframwaith Cynllunio GIG Cymru a Phwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys (EASC) a bwriadau comisiynu 111.

Cefnogir y ddogfen gan y Set Ddata Sylfaenol fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru (LIC), cynlluniau gweithredu blaenoriaeth gweinidogol ac atodiadau sy'n rhoi mwy o fanylion am feysydd ein cynllun. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar gais.

1. Ein Strategaeth Hirdymor

1.1 Ein Diben




Mae datganiad o ddiben yn rhywbeth a all rwympo ac uno pobl ar draws y sefydliad tuag at nod cyffredin.

Fe wnaethom gytuno ar ein pwrpas yn 2023 ac rydym yn parhau i adeiladu ein cynlluniau sy'n ein helpu i gyflawni ein pwrpas: **I Gefnogi. I Wasanaethu. I Achub.**


1.2 Ein Nodau Strategol

Cymeradwywyd ein Fframwaith Strategol Hirdymor ar gyfer 2030, '**Sicrhau Rhagoriaeth**' yn 2019, gan nodi ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer y sefydliad. Nododd ein huchelgais i symud o fod yn wasanaeth ambiwlans a chludiant traddodiadol i fod yn ddarparwr gofal o ansawdd uchel y tu allan i'r ysbyty y gellir ymddiried ynddo, gan sicrhau bod cleifion yn cael y '**cyngor a'r gofal iawn, yn y lle iawn, bob tro**', gyda mwy o bwyslais ar ddarparu gofal yn nes at y cartref. Mae hyn nid yn unig yn sicrhau bod cleifion yn cael gofal diogel ac amserol, yn diwallu eu hanghenion unigol, ac yn lleihau trawsgludiadau diangen i ofal eilaidd, mae hefyd yn cefnogi llif ar draws y system iechyd a gofal ehangach ac yn cyfrannu at strategaethau a chynlluniau byrddau iechyd.

Mae'n strategaeth sefydliad cyfan, ac mae'r angen i gefnogi a galluogi ein **pobl i fod y gorau y gallant fod** yn hanfodol i wella gwasanaethau. Rydym hefyd yn ymrwmpo o fewn y strategaeth i fod yn sefydliad sy'n **cydweithio** â'i bartneriaid, sy'n parhau i fod ar **flaen y gad o ran arloesi a thechnoleg**, sy'n parhau i ganolbwyntio ar gael ei **lywio gan ansawdd a'i arwain yn glinigol**, ac sy'n darparu **gwerth** eithriadol. Rydym wedi parhau i ddatblygu ein Cynlluniau Tymor Canolig Integredig o amgylch y strategaeth hon a'i **chwe amcan strategol craidd**.




'Sicrhau Rhagoriaeth' – Ein Strategaeth hirdymor



Y llynedd achubwyd ar y cyfle i adolygu cynnydd yn erbyn 'Sicrhau Rhagoriaeth'. Mae'n amlwg ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni ein uchelgeisiau strategol, y gellir gweld rhai ohonynt yn ein map ffordd o 2019 i 2024 isod.

Ond ers i ni ddatblygu'r strategaeth yn 2019, mae'r dirwedd yr ydym yn gweithredu oddi mewn iddi wedi newid yn sylweddol. Er ein bod yn hyderus bod y cyfeiriad teithio cyffredinol yn parhau i fod yn addas i'r diben, nododd ein hadolygiad fod angen datblygu a mireinio ein ffordd o feddwl ar ein model ymateb clinigol a fydd yn cyflawni'r uchelgais o 'ddarparu'r gofal a'r cyngor cywir, yn y lle iawn, bob tro'. Disgrifir ein syniadau newydd yn fanylach yn yr adran nesaf.



1.3 Esblygu a Thrawsnewid ein Cynigion Gwasanaeth

Mae'n amlwg i ni fod **angen dybryd o hyd i newid** y ffordd yr ydym ni a'n partneriaid yn ymateb i anghenion ein cleifion ac yn eu diwallu. Mae gormod o gleifion yn parhau i gael niwed, mae gwasanaethau'n canolbwyntio ar anghenion sefydliadol gyda phrosesau aneffeithlon a hen ffasiwn yn effeithio ar brofiad y claf, ac mae'r anhawster wrth lywio ein system iechyd a gofal cymhleth yn golygu nad yw cleifion yn aml yn cael y gofal iawn yn, y lle iawn, ar yr amser iawn.

Yn flaenorol, delweddwyd ein uchelgeisiau trawsnewid gwasanaeth drwy'r cysyniad o 'Wrthdroi'r Triangl'. Roedd hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar drawsnewid ein hymateb i gleifion sy'n ffonio 999 - gan symud i ffordd o'r model gofal ambiwlans traddodiadol o logisteg a chluant clinigol tuag at ddyfodol lle mae'r mwyafrif o anghenion gofal yn cael eu diwallu a'u datrys yng nghartref y claf neu'n agos ato.

Mae egwyddorion y cysyniad hwn yn parhau i fod yn wir. Ond gan weithio ar draws system iechyd a gofal mor gymhleth a rhyng-gysylltiedig, er mwyn sicrhau'r effaith a'r buddion mwyaf posibl i'n cleifion, rydym am ehangu ein ffordd o feddwl a mabwysiadu **dull mwy cyffannol ac integredig**, gan ystyried sut mae ein holl wasanaethau (999, GIG 111 a NEPTs) yn cyfrannu at drawsnewid gofal. Mae gweithdai creu gweledigaeth

wedi helpu i lywio ein ffordd o feddwl, ond mae angen **esblygiad pellach** ar ein syniadau **mewn cydweithrediad â'n comisiynwyr**, rhanddeiliaid systemau, ein pobl a'r cyhoedd yn 2024/25. Mae'n bwysig i ni fod ein hagenda drawsnewid yn cyd-fynd â blaenoriaethau byrddau iechyd a'r Rhaglen Chwe Nod ac yn eu cyflawni.

Rydym yn dechrau disgrifio **model ymateb clinigol integredig** newydd, sydd â nifer o gydrannau allweddol a ddisgrifir yn fanylach yn yr adrannau isod.

Ein blaenoriaeth sylfaenol a phwysicaf erioed fu, a bydd yn parhau i fod, darparu gwasanaeth **ymateb i argyfwng** o safon fyd-eang. Mae angen ymateb ar unwaith neu gyflym ar gleifion sy'n dioddef, er enghraifft, ataliad ar y galon, strôc, methiant anadlol neu anaf difrifol ac, mewn llawer o achosion, mae angen iddynt cael eu cludo'n gyflym i adran dderbyn briodol i ddiwallu eu hanghenion gofal iechyd parhaus. I rai o'n cleifion mwy bregus sydd wedi cwmpo, er efallai nad ydynt wedi'u hanafu, mae angen ymateb cyflym arnynt hefyd i'w codi er mwyn osgoi canlyniadau cyfnodau hir o fod ar y llawr yn dilyn cwmpiad. Rhaid i'n strategaeth sicrhau bod gennym **ddigon o ambiwlansys argyfwng, CHARU ac adnoddau eraill** i ddarparu'r ymateb i argyfwng cyflym hwn i sicrhau'r canlyniad gorau posibl i bob claf.

Ond mae'r rhai sydd angen ymateb brys yn gyfran fach o'r niferoedd cyffredinol o gleifion sy'n cysylltu â ni neu'n ein ffonio. Mae cyfran sylweddol o'n galw ar gyfer cleifion sydd ag angen iechyd difrifol neu aciwtedd is, a gall y rhain codi **naill ai drwy alwad 999 neu drwy'r system 111**. Er mwyn ein galluogi i ddarparu ymateb cyflym i sefyllfaoedd brys, mae angen i ni reoli'n fwy effeithiol y cleifion hynny nad yw eu cyflwyniad, er ei fod yn fater brys, o reidrwydd yn golygu bod angen taith i'r adran achosion brys. Ar gyfer y cleifion hyn, ni waeth sut y maent wedi cael mynediad atom, mae angen i ni weithio gyda'n partneriaid i greu **gwasanaeth ymateb cymunedol brys 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos** sy'n wasanaeth mwy pwrpasol sy'n diwallu eu hanghenion unigol yn nes at y cartref, gan osgoi'r angen i gael eu cludo neu dderbyn i'r ysbyty. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- **Gwasanaeth Gofal Integredig o Bell:** mae gennym eisoes ôl troed clinigol cenedlaethol a seilwaith sy'n cefnogi gwasanaethau **GIG 111 a 999**. Mae'r timau hyn yn helpu i lywio cleifion yn ddiogel drwy'r system i'r gofal iawn, yn aml yn darparu'r cyngor a'r gofal sydd eu hangen arnynt eu hunain fel nad oes angen ymyrraeth bellach. Bydd cynyddu galluedd a galluogrwydd y gweithlu hwn yn allweddol, yn ogystal â datblygu mecanweithiau i gefnogi eu penderfyniadau clinigol, gan gynnwys mynediad at arsylwadau amser real trwy **Connected Support Cymru**, gan alluogi atal cychwynnol yn ogystal ag ymatebion gofal brys, er enghraifft trwy'r defnydd o dechnolegau gwisgadwy. Bydd y ddau dîm clinigol hyn yn cael eu dwyn ynghyd dros y ddwy flynedd nesaf.
- **Ymateb Brys Cymunedol yn y fan a'r lle:** Bydd angen asesiad a thriniaeth wyneb yn wyneb o hyd ar lawer o gleifion. Rydym eisoes yn darparu amrywiaeth o ymatebion, megis uwch ymarferwyr, gwasanaethau cwmpiaid, ymateb iechyd meddwl a pharafeddygon gofal lliniarol, ac rydym am weithio gyda byrddau iechyd i dyfu ac integreiddio'r rhain â'u gwasanaethau ymateb cymunedol eu hunain. Bydd gweithio gydag eraill i ddatblygu mynediad at lwybrau cymunedol yn allweddol i lwyddiant y timau hyn.

Bydd gan ein **gwasanaeth cludiant cleifion** gofal ambiwlans fwy o rôl yn y dyfodol wrth gefnogi llif ar draws y system, boed hynny drwy wasanaethau rhyddhau hyblyg, cynlluniau trosglwyddo rhwng ysbytai pwrpasol ac ymatebol neu wasanaeth cludiant iechyd ar y dydd 'wedi'i gynllunio' sy'n hygyrch i Weithwyr Iechyd Proffesiynol neu ein clinigwyr ein hunain. Ym maes gofal wedi'i gynllunio, bydd angen moderneiddio'r ddarpariaeth barhaus o gludiant cleifion ar gyfer apwyntiadau claf allanol sydd wedi'u cynllunio ymlaen llaw er mwyn darparu gwell profiad i gleifion.

Bydd amrywiaeth o bwyntiau mynediad at y gwasanaethau hyn, a fydd yn cynnwys porth digidol integredig, wedi'i alinio'n llawn ag Ap GIG Cymru. Yn ogystal â darparu mynediad at ofal brys, dyma hefyd y mecanwaith i gleifion ag **anghenion mwy arferol** gael mynediad at gyngor, arweiniad a chyfathrebu â ni. Gallai hyn gynnwys gwireddu buddion deallusrwydd artiffisial a sgwrsfotiaid, gan gynnig Cyfeiriadur Gwasanaeth mwy rhyngweithiol a'r gallu i drefnu apwyntiadau ar-lein.

Yn bwysig, bydd angen i ni allu mesur a dangos ein heffaith strategol ar draws y system yn well. Er mwyn bwrw ymlaen â hyn byddwn yn canolbwyntio ar y tair ffrwd waith ganlynol:

- **Metrigau system:** Yn 2024/25 byddwn yn mapio ac yn adolygu ein "metrigau system" ac yn ceisio datblygu adroddiadau rheolaidd sy'n ein galluogi ni a'n rhanddeiliaid i olrhain ein heffaith yn unol â'r model ymateb clinigol newydd. Bydd hyn yn canolbwyntio'n benodol ar ddelwedd.
- **Tystiolaeth o effaith:** Y galluogydd hanfodol yw cysylltu data. Er mwyn i ni allu dangos y gwerth yr ydym yn ei ychwanegu at y system, mae angen i ni allu dilyn cleifion drwy'r system, gan nodi canlyniadau, a dangos, pan fyddwn yn cau cyfnod gofal, bod anghenion y claf hwnnw'n cael eu diwallu ac nad ydynt yn ceisio gofal iechyd mewn mannau eraill. Nid yw ein data ePCR yn cael ei rannu â byrddau iechyd ar hyn o bryd, ond rydym yn gweithio gyda Iechyd a Gofal Digidol Cymru i sicrhau bod llif ar gael ddiwedd y gwanwyn / dechrau'r haf. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod unrhyw ddata cysylltiedig hefyd ar gael i ni.
- **Cynhyrchiant ac effeithlonrwydd:** Rydym hefyd am wella data ynghylch cynhyrchiant ac effeithlonrwydd pob elfen o'r model ymateb clinigol newydd. Bydd hyn yn cynnwys modelu'r lefelau o ddefnydd a gweithio ar wella mynediad at ddata timau unigol a chlinigwyr.

Mae **Atodiad 2** yn crynhoi camau gweithredu allweddol 2024/25, a amlinellir yn yr adrannau isod, a fydd yn cyflawni'r trawsnewid hwn.

2. Ein Prif Gyflawniadau yn 2023/24



Mae ein cynllun yn dilyn ymlaen o gyflawniad cryf yn 2023/24 pan wnaethom gymryd camau breision tuag at ein hamcanion strategol.

3. Heriau a Chyfleoedd sy'n llywio ein cynllun

3.1 Beth mae ein cleifion yn ei ddweud am ein gwasanaeth?

Mae Atodiad 1 yn nodi'n fanylach yr ymgysylltu â chleifion a gynhaliwyd gennym yn 2023/24 a sut mae'r adborth a gawsom drwy gydol y flwyddyn yn cyfrannu at y blaenoriaethau a nodir yn y cynllun hwn. Mae'r adran hon yn crynhoi rhai o'r adborth allweddol a gawsom yn ein tri phrif faes gwasanaeth.

GIG 111 Cymru



Er ein bod yn cyflwyno cynnig i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i geisio unioni rhwystrau i adborth effeithiol gan gleifion, nid oes gennym broses lywodraethu ar waith ar hyn o bryd sy'n ein galluogi i gysylltu'n uniongyrchol â galwyr 111 i ofyn am adborth, gan arwain at ymateb cyfyngedig i ein harolwg teleffoni. Fodd bynnag, cawsom adborth gwerthfawr yn 2023/24 am brofiad **gwefan GIG 111 Cymru**. Bwriedir i'r wefan fod yn fan cyswllt cyntaf defnyddiol a greddfod i bobl sy'n ceisio cyngor ac arweiniad am eu

hanghenion gofal brys. Mae'r adborth gan gleifion eleni wedi bod yn ddefnyddiol wrth nodi meysydd i'w gwella.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'n harolygon o'r farn bod eu profiad o ddefnyddio'r wefan yn wael neu'n wael iawn, felly mae'n amlwg bod gwelliant i'w wneud, ond mae rhai pethau cadarnhaol i adeiladu arnynt wrth i ni ddatblygu ein gweledigaeth ddigidol 111 ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Gwasanaethau Meddygol Brys a'r Ddesg Gymorth Clinigol - 999

Rydym wedi bod yn defnyddio'r **system profiad cleifion Civica** fel un mecanwaith i fesur adborth ac ansawdd yn ein gwasanaethau 999, sydd bellach yn cynnwys swyddogaeth fideo ar gyfer straeon cleifion. Mae nifer yr ymatebwyr hyd yma wedi bod yn gyfyngedig wrth i ni barhau i weithio drwy ofynion cydsynio a llywodraethu gwybodaeth. Fodd bynnag, roedd yr **adborth yn gadarnhaol ar y cyfan** am y rhan fwyaf o agweddau ar brofiad cleifion o'r system 999, er, yn ôl y disgwyl, cafwyd adborth negyddol am yr **amseroedd aros am ambiwlans**.



Roedd y themâu a ddaeth trwy ein **straeon cleifion, cwynion a chanmoliaeth** hefyd yn canolbwyntio'n drwm ar amseroedd ymateb ambiwlansys ac oedi wrth drosglwyddo cleifion yn yr ysbyty. Roedd teimlad o orbryder ac enghreifftiau o ganlyniadau gwael a thrychinebus mewn rhai achosion o arosiadau hir gan gynnwys y bobl hynny a oedd yn gorfod gwneud eu ffordd eu hunain i'r ysbyty yn ystod cyfnodau prysur iawn, lle nad oeddem yn gallu anfon adnodd.

Gofal Ambiwylans

Ar y cyfan, roedd yr adborth ar Ofal Ambiwylans yn **gadarnhaol**. Cafwyd peth adborth negyddol o ran amseroedd aros am ambiwlansys, cysur a phoen. Yr hyn sy'n amlwg serch hynny yw ymroddiad, tosturi a chyfeillgarwch y staff sy'n gwneud profiad y claf yn un da i fwy o bobl sy'n ymateb i'n harolygon.

3.2 Beth yw blaenoriaethau ein cydweithwyr?

Rydym wedi parhau i ymgysylltu â chydweithwyr ar draws yr Ymddiriedolaeth drwy gydol 2023/24 i ddeall y materion allweddol sy'n effeithio arnynt. Mae hyn nid yn unig yn ein helpu i lunio ein cynlluniau gwasanaeth ar gyfer y dyfodol, ond hefyd yn ein helpu i nodi materion sy'n effeithio ar eu bywydau gwaith o ddydd i ddydd.

Rydym yn parhau i ddefnyddio amrywiaeth o ymgysylltu digidol ac wyneb yn wyneb a ategir gan ein **harolygon** Hive rheolaidd newydd ac yn ogystal â'n **Sioeau Teithiol Prif Swyddog Gweithredol a Symposiwm Arweinyddiaeth** bob chwe mis. Defnyddir data iechyd a diogelwch hefyd i lywio ein cynlluniau i wella iechyd, diogelwch a lles ein pobl drwy'r cynllun hwn. Rydym wedi lansio ein plattform Rhyddid i Leisio Barn, sy'n rhoi llwybr i bobl roi adborth ar bryderon ac mae'r Rhwydwaith Lleisiau yn rhoi llwybr pellach ar gyfer adborth.

Mae ein pobl wedi mynegi teimladau cryf yn ystod y cyfleoedd ymgysylltu hyn. Mae'r **pwysau system** dildio yn parhau i gael effaith sylweddol. Mae staff yn rhwystredig gyda'r oedi hir y tu allan i'r ysbyty. I'r staff ffyrdd, nid yn unig y maent yn gweld drostynt eu hunain y niwed a ddaw i gleifion sydd wedi aros yn rhy hir yn y gymuned, maent hefyd yn poeni am ddirywiad eu **sgiliau clinigol** gan eu bod yn gweld llai o gleifion bob shift. Er ein bod wedi gosod mesurau mewn rhai meysydd i liniaru effaith oedi, yn enwedig **sifftiau'n gor-reddeg** sy'n effeithio ar ymrwymadau y tu allan i'r gwaith, nid yw'r rhain yn cael eu dileu o hyd. Mae staff y ganolfan reoli **yn teimlo nad oes ganddynt y pŵer** i helpu cleifion pan fyddant yn ffonio dro ar ôl tro i ofyn am ddiweddariad ar amseroedd cyrraedd neu pan nad oes ambiwlansys i'w hanfon. Mae ein staff 111 yn cael eu heffeithio pan fo'r galw mor uchel, ni allant ymateb mor gyflym ag y dymunant.

Eleni, dechreuom glywed pryderon ehangach gan ein staff, a nodir rhai ohonynt yma. →

Er gwaethaf y pryderon ymhlith ein pobl, rydym wedi cael adborth cadarnhaol trwy gydol y flwyddyn ac mae pobl yn parhau i fod yn falch o weithio i WAST. Yn ystod Sioeau Teithiol y Prif Swyddog Gweithredol, rhannodd tua 500 o bobl eu gobeithion ar gyfer y dyfodol.

Mae Atodiad 1 yn nodi mwy o fanylion am yr adborth a gawsom a'r meysydd yn y cynllun hwn lle rydym yn bwriadu mynd i'r afael â rhywfaint o'r adborth hwnnw a gawsom.



3.3 Ein cyd-destun gweithredol ac ariannol

Mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro ansawdd a pherfformiad mewn ffordd integredig, gan edrych ar bedwar maes yn seiliedig ar y Nod Pedwarplyg: ein cleifion, ein pobl, gwerth a chyfraniad system. Mae gennym Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad y cytunwyd arno.



Mae cyd-destun gweithredu'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn heriol. Mae'r graffig uchod yn crynhoi rhai o'r prif heriau perfformiad sy'n ein hwynebu (yn seiliedig ar ddata Rhagfyr 2023), gyda llawer o'r meysydd perfformiad gwael yn triongli â gwybodaeth gan ein cleifion a'n pobl. Mae rhai straeon newyddion da o fewn y data hefyd. Tra bod canran y galwadau coch yr ymatebwyd iddynt o fewn 8 yn parhau i fod ymhell islaw'r targed o 65%, rydym yn ymateb i **fwy o alwadau coch** o fewn 8 munud nag erioed o'r blaen wrth i'r galw coch cyffredinol gynyddu. Rydym hefyd wedi gweld gwelliannau cadarnhaol yn ansawdd ein gwasanaeth GIG 111 Cymru, gyda mwy o alluedd yn sicrhau gwelliannau mewn **perfformiad ateb galwadau**, llai o alwadau'n cael eu gadael a gwell amseroedd galw'n ôl clinigol.


Fodd bynnag, rydym yn arbennig o ymwybodol o'r ffaith, er gwaethaf y camau yr ydym wedi'u cymryd, bod y pwysau parhaus ar y system a'r oedi gormodol wrth drosglwyddo o ysbytai wedi arwain at **amseroedd aros annerbyniol o hir** am ambiwlans sydd yn eu tro wedi cyfrannu'n uniongyrchol at niwed y gellir ei osgoi i gleifion. Gwyddom y gall niwed ddigwydd i gleifion sydd wedi aros yn rhy hir am ymateb yn y gymuned, i'r rhai sy'n aros yng nghefn ambiwlans yn aros i gael eu dadlwytho i adran argyfwng, neu i'r rhai na allwn anfon ambiwlans atynt ar adegau'r difrifoldeb mwyaf. Mae hyn wedi bod yn destun llawer o drafod o fewn y sefydliad yn ystod y flwyddyn, gyda'r **Bwrdd yn cael adroddiad manwl** ym mhob un o'i gyfarfodydd ar y camau sy'n cael eu cymryd i leihau a lliniaru niwed ac ymchwilio i nifer fawr o achosion o dan y Fframwaith Ymchwilio ar y Cyd gyda byrddau iechyd.

Byddwn yn cyflawni ein dyletswyddau ariannol statudol yn 2023/24 ond rydym wedi gorfod cyflawni £6m mewn arbedion. Mae effaith barhaus chwyddiant, costau byw ac anweddolrwydd mewn prisiau ynni fel y

maent yn berthnasol i'r Ymddiriedolaeth yn golygu bod **y rhagolygon ariannol ar gyfer 2024/25 a thu hwnt yn parhau i fod yn heriol.**

Mae'r Set Ddata Sylfaenol yn atodiad 6 yn nodi'r gweithgaredd disgwylidig a rhai o'n llwybrau perfformiad ar gyfer 2023/24, yn ogystal â'r gweithlu a'r cynllun ariannol.

3.4 Beth yw ein sbardunau deddfwriaethol, strategol, ariannol a pholisi?



Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** yn sail i'r Rhaglen Lywodraethu, a '**Cymru Iachach**' yw'r strategaeth hirdymor ar gyfer y system iechyd a gofal cymdeithasol o hyd. Nododd y Gweinidog dros lechyd a Gofal Cymdeithasol ei blaenoriaethau yn Fframwaith Cynllunio 2024-27 y bydd angen i'r cynllun hwn eu bodloni.

- Gofal Gwell yn y Gymuned
- Gofal Sylfaenol a Chymunedol
- Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng
- Gofal wedi'i Gynllunio a Chanser
- Iechyd Meddwl, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)

Mae'r rhaglen **Chwe Nod (Dolen)** wedi'i sefydlu ar lefel genedlaethol a lleol i gefnogi gwelliant yn y system gofal brys a brys. Mae gan yr Ymddiriedolaeth rôl i'w chwarae ar draws yr holl nodau, a gellir gweld hyn gan fod yr eiconau chwe gôl wedi'u cynnwys yn yr adran berthnasol o'r cynllun hwn. Mae adolygiad cyflawn o'n cyfraniad at y chwe nod a sut y gall hyn drosi i ganlyniadau a pherfformiad gwell i'w weld yn atodiad 1.

Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng
Y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf

1. Cydgyssylltu, cynllunio a chymorth ar gyfer poblogaethau sydd â risg uwch o fod angen gofal brys neu ofal mewn argyfwng
2. Cyfeirio pobl ag anghenion gofal brys i'r lle iawn y tro cyntaf
3. Dewisiadau eraill sy'n ddiogel yn glinigol yn lle mynd i'r ysbyty
4. Ymateb cyflym os oes ar gyfwrng corfforol neu argyfwng iechyd meddwl
5. Darparu'r gofal a'r ymarfer rhyddhau gorau posibl i'r clafar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty
6. Dull 'gartref yn gyntaf' a lleihau'r risg o orfod mynd yn ôl i'r ysbyty

I gyflawni'r gorau posibl o ran profiad cleifion a staff, canlyniadau clinigol a gwerth

Byddwn yn parhau i baratoi yn gynnar yn 2024/25 i'r Ymddiriedolaeth fod yn sefydliad a enwir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (**Dolen**), gan sicrhau bod ein polisiau, ein strategaethau a'n cynlluniau yn gyson â'r Nodau Llesiant a'r Pum Ffordd o Weithio. Bydd **Amcanion Llesiant** yn cael eu datblygu a bydd ein Cynllun Tymor Canolig Integredig nesaf yn cael ei fframio o'u cwmpas.

Sbardun allweddol arall i ni yn 2024/25 fydd y **Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023** sy'n dod i rym. Mae'r Ddeddf yn 'yn darparu fframwaith i hybu llesiant pobl Cymru drwy wella datblygu cynaliadwy (gan gynnwys drwy wella gwasanaethau cyhoeddus) drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cymdeithasol gyfrifol' (Ffynhonnell: Cyfraith.llyw.cymru)

Fel sefydliad cenedlaethol yng Nghymru, rydym hefyd wedi parhau i ganolbwyntio ar ein hymrwymiad i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a chydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg, gan gymryd cam enfawr ymlaen wrth ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu Cymraeg mewnol i gefnogi ein timau gweithredol a chorfforaethol.

Rydym wedi ymrwmo i'n cyfrifoldebau i genedlaethau'r dyfodol o ran Deddf Amgylchedd Cymru ([Dolen](#)). Rydym wedi nodi drwy'r cynllun hwn sut y byddwn yn mynd i'r afael â'n heffaith amgylcheddol, wrth inni ymdrechu i weithio tuag at dargedau sero net Llywodraeth Cymru.

Mae ein cynllun yn ystyried llawer o sbardunau deddfwriaethol, polisi, strategol ac ariannol eraill, gan gynnwys (ddim yn gynhwysfawr):

- Dyletswydd Ansawdd ([Dolen](#))
- Dyletswydd Gonestrwydd ([Dolen](#))
- Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol ([Dolen](#))
- Deddfwriaeth Cydraddoldeb a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ([Dolen](#)).
- Cynllun Cydraddoldeb Hiliol Cymru ([Dolen](#))
- Cynllun Gweithredu Mwy na geiriau ([Dolen](#))

Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd



Rydym yn gwneud cynnydd da gyda llawer o elfennau ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio ond yn gwybod y bydd angen buddsoddiad sylweddol i wireddu ein huchelgeisiau yn llawn. Ynghyd â hyn mae hefyd ymrwymiad i fuddsoddi mewn arloesedd a thechnoleg.

3.5 Beth mae ein comisiynwyr yn ei ddweud?

Bydd y trefniadau comisiynu presennol ar gyfer EMS, NEPTS ac 111 yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023, pan fydd y **Cydbwyllgor Comisiynu** newydd yn cael ei greu. Bydd hyn yn dod â chomisiynu ein holl wasanaethau craidd i mewn i un pwyllgor, a all gynnig cyfleoedd pellach i integreiddio ein tri phrif lwybr cleifion. Yn y cyfamser, cytunwyd ar y bwriadau comisiynu ar draws 111, EMS a NEPTS drwy fecanweithiau comisiynu presennol a chyfredol.

Ar y cyfan, mae'r **bwriadau comisiynu ar gyfer 111** yn debyg i'r rhai a nodwyd yn 2023/24. Ar gyfer 2024/25 maent yn nodi gofyniad am ffocws parhaus ar ansawdd a pherfformiad, ffocws uniongyrchol ar amnewid system feddalwedd 111, cefnogaeth i adolygiad o wefan 111 a dymuniad i ailsefydlu adolygiad o'r rhestrau dyletswydd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn awyddus i sefydlu **amlen adnoddau** ar gyfer 111 yn yr un modd ag y'n comisiynwyd ar gyfer EMS a NEPTS, gan symud oddi wrth fodel gwario ac adennill. Bydd trafodaethau'n parhau gyda'r comisiynydd newydd yn hyn o beth.

Ar gyfer **EMS mae'r bwriadau ar gyfer 2024/25** yn parhau i ganolbwyntio ar symud i'r chwith yn llwybr y claf ac mae llawer o rai eraill yn aros yr un fath â'r rhai yn 2023/24. Fodd bynnag, mae rhai meysydd newydd o sylw gan gynnwys gofyniad i ddatblygu cynllun gweithlu strategol, recriwtio a chadw i ardaloedd gwledig mwy heriol ac, yn ddi-ddorol, ymatebion iechyd meddwl yng ngoleuni'r rhaglen y Gofal Cywir, y Person Cywir. Mae Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans wedi nodi ymrwymiad parhaus i drawsnewid, gan sicrhau hefyd canolbwyntio ar gyflawni amcanion perfformiad hanfodol. Byddwn yn cefnogi'r datblygiadau hyn gyda chanfyddiadau'r adolygiad strategol o alw a galluedd EMS, a gynhaliwyd yn annibynnol ac ar y cyd, y disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd Ch4 2023/24.

Ar gyfer ein comisiynwyr, bydd disgwyliadau perfformiad yn cael eu cyflwyno yn 2024/25 sy'n cyd-fynd â lefelau gwella perfformiad y bwrdd iechyd. Gyda'r ffactor unigol mwyaf ym mherfformiad ambiwlansys brys sef oedi wrth drosglwyddo o'r ambiwlans, bydd canlyniadau perfformiad ambiwlans yn cael eu modelu a'u rhagweld yn erbyn lefelau oedi wrth drosglwyddo o'r ambiwlansys. Felly bydd canlyniadau perfformiad ambiwlansys ar gyfer 2024/25 yn seiliedig ar dri senario a fydd yn cael eu modelu yn yr wythnosau nesaf:

- Senario 1 - Dim gostyngiad mewn achosion o oedi wrth drosglwyddo o'r ambiwlansys
- Senario 2 - Gostyngiad mewn oedi wrth drosglwyddo yn unol â modelu galw a galluedd gwasanaethau ambiwlans brys 2023/24
- Senario 3 - Dim oedi dros un awr wrth drosglwyddo o'r ambiwlans


Yn y bôn, nid yw bwriadau NEPTS wedi newid, ond, yn bwysig, maent yn cynnwys darn ehangach o waith cydweithredol sy'n cael ei wneud dan arweiniad comisiynwyr ar y strategaeth hirdymor ar gyfer gwasanaethau Gofal Ambiwlans. Yn ogystal â'r gwaith hwn ar y strategaeth tymor hwy, bydd 2024/25 yn gweld ffocws ar bum maes gwella perfformiad penodol ar gyfer NEPTS.

- Gwelliannau mewn perfformiad gweithredol ar gyfer cleifion gwasanaeth oncoleg
- Gwelliannau mewn perfformiad gweithredol ar gyfer gwasanaethau cleifion allanol
- Gostyngiad yn nifer y triniaethau llai ar gyfer cleifion dialysis arenol
- Gostyngiad yn nifer y gwasanaethau sy'n cael eu canslo ar y diwrnod
- Lleihau nifer yr archebion a wneir ar y diwrnod

Yn ystod 2023/24, sefydlwyd **Cynlluniau Gweithredu Comisiynu Integredig** gyda byrddau iechyd a'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol. Mae cyfarfodydd wedi'u gohirio tra'n aros i'r trefniadau comisiynu ar y cyd gael eu sefydlu, ond rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i drefniadau cynllunio a chomisiynu lleol gyda byrddau iechyd.

3.6 Beth yw'r risgiau yr ydym yn eu rheoli?

Gwyddom fod yna nifer o risgiau â sgôr uchel o fewn y gwasanaeth sydd angen eu rheoli a'u lliniaru. Mae **Fframwaith Sicrwydd Bwrdd** yr Ymddiriedolaeth yn darparu llinell olwg glir i'r rheolaethau a'r sicrwydd cysylltiedig ar y rheolaethau hynny, a'r camau gweithredu y gallwn eu cymryd (ac sydd o fewn ein gallu) i liniaru'r risgiau hynny.



Mae Atodiad 1 yn nodi'r hyn yr ydym yn ei wneud yn ein cynllun i fynd i'r afael â'n hamrywiaeth o risgiau corfforaethol. Fodd bynnag, mae risgiau sy'n ymwneud â phwysau system gyfan yn parhau i fod y tu hwnt i'n rheolaeth lawn i raddau helaeth ac rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid system i leihau effaith y risgiau hyn.

Mae'r graffig hwn yn nodi'r pedwar risg sydd â'r sgôr uchaf, ond mae risgiau allweddol eraill yn cynnwys methiant systemau critigol, seiberddiogelwch ac adnoddau nad ydynt ar gael i ymateb i ddigwyddiadau mawr, yn enwedig yng

ngoleuni canfyddiadau ac argymhellion Ymchwiliad Arena Manceinion.

Yn ychwanegol at adborth gan fyrddau iechyd, Rheoleiddwyr a Chrwneriaid, rydym wedi dechrau gweithio i ddiffinio mesurau lliniaru i risgiau diogelwch ac ansawdd gofal sy'n deillio o gyfnodau estynedig mewn ambiwlans yn well; mae'r rhain yn cynnwys cymhwyso'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid a Hanfodion Gofal gan gynnwys gofalu am fannau pwysu, symud a maeth. Un pryder penodol sy'n cael ei ystyried ar y cyd â phartneriaid ehangach yw'r angen i sicrhau bod clinigwyr yn gweithio o fewn eu cwrpas personol a threfniadol o ymarfer proffesiynol. Disgwylir i hyn adrodd yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol nesaf.

3.7 Sut rydym yn ffocysu ein cynllun.


Gyda'r sbardunau hyn ar flaen ein meddwl, a chan cydnabod bod ein pobl wedi gweithio'n galed dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i ddod â ni at y pwynt hwn, a chydweithio â **phartneriaid** - byrddau iechyd, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr, Partneriaid Undebau Llafur, staff, gwirfoddolwyr, cleifion a'r cyhoedd, rydym yn glir bod yn rhaid **canolbwyntio'n bwrpasol ar gyflawni tair blaenoriaeth allweddol:**

- **Trawsnewid** y ffordd yr ydym yn darparu gofal gyda phartneriaid byrddau iechyd drwy ddatblygu, cytuno a gweithredu **model ymateb clinigol newydd** a fydd yn rhoi'r cyngor a'r gofal iawn i gleifion, yn y lle iawn, bob tro a lleihau niwed. Mae ein blaenoriaethau penodol wedi'u nodi yn Adran 4 sy'n nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud ar gyfer cleifion sy'n defnyddio gwasanaethau 111, 999 a Gofal Ambiwylans;
- Gwneud popeth yn ein rhodd i wella profiad **ein pobl** yn y gweithle, gan eu galluogi i fod y gorau y gallant fod. Mae'r blaenoriaethau i'w gweld yn Adran 5; a
- Darparu **gwerth a chynaliadwyedd** eithriadol, yng nghydestun cyllid, yr amgylchedd a Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn Adran 10 'Gwerth a Chynaliadwyedd'.

Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd



Byddwn yn adeiladu ar sefydlu Bwrdd y Rhaglen Datgarboneiddio ar gyfer 23/4 yn llwyddiannus er mwyn integreiddio datgarboneiddio a chynaliadwyedd ymhellach ledled yr Ymddiriedolaeth a hyrwyddo perchnogaeth ar draws yr holl gamau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio.



4. Ein Cleifion

Amcan Strategol 1 – Darparu'r gofal neu'r cyngor cywir, yn y lle iawn, bob tro

4.1 GIG 111 Cymru

Sut olwg fydd ar dda ar gyfer defnyddwyr 111 yn 2027?

- Mae cleifion yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth 111 ac yn ei ddewis fel eu porth gofal dewisol.
- Mae cleifion yn hyderus bod y gwasanaeth yn eu llywio'n ddiogel drwy'r system iechyd a gofal gymhleth.
- Mae cleifion yn hapus i gydymffurfio â'r wybodaeth a'r cyngor a roddir iddynt.
- Mae cleifion yn cael asesiadau clinigol o bell amserol o ansawdd uchel ac nid oes angen ymyrraeth



Beth fydd yn wahanol?

- Yn amserol yn gyson – llai na 5% yn cael ei adael
- Gwell boddhad wedi'i adrodd gan gleifion.
- Cyfran uwch o ymgynghoriadau a gaewyd heb fod angen unrhyw gyswllt pellach.
- Cyfran uwch o gamau nesaf wedi'u harchebu'n ddi-dor.



111 - Porth i Ofal Brys

Ystod o sianeli mynediad sy'n fan galw a ffafrir gan bobl i ddiwallu eu hanghenion gofal iechyd brys.



Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, a nodir o dan Nod 2 y rhaglen Chwe Nod yw 'Pan fydd angen neu eisiau gofal brys ar bobl, gallant **gael mynediad at wasanaeth gofal brys 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos drwy wasanaeth GIG 111 Cymru ar-lein neu drwy ffonio ni...**'. Mae hyn yn cyd-fynd yn agos â'n huchelgais strategol ein hunain.



Mae camau breision wedi'u cymryd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gyda chwblhau'r gwaith o gyflwyno 111 yn genedlaethol a chyflwyno gwasanaeth 111 Pwyso 2, sy'n darparu mynediad ar unwaith at dimau iechyd meddwl lleol i'r rheini ag anghenion iechyd meddwl brys.

Nawr bod y gwasanaeth yn gwbl genedlaethol, rydym yn parhau i weithredu gyda phartneriaid i **hyrwyddo'r defnydd o 111 ledled Cymru** gan ddefnyddio deunydd o ymgyrchoedd cyfathrebu a marchnata blaenorol ac integreiddio ag ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd ac iechyd ehangach.

Mae mwy y gellir ei wneud i ehangu nifer y gwasanaethau y ceir mynediad atynt drwy 111. Dim ond trwy 111 y ceir mynediad at **ofal deintyddol brys** mewn pedair ardal o'n byrddau iechyd ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid i symleiddio a gwella prosesau yn yr ardaloedd hynny. Bydd Llwybr Deintyddol Brys Cenedlaethol yn cael ei ddatblygu i gefnogi pob bwrdd iechyd, gan ystyried sut y gellir ei gyflwyno yn y tri sy'n weddill.

Yn ystod 2024/25, byddwn yn gweithio gydag arweinwyr a chomisiynwyr Nod 2 i sefydlu **'sut olwg sydd ar dda'** ar gyfer GIG 111 Cymru yn y dyfodol. Bydd hwn yn gyfle i ystyried a all ddarparu'r llwyfan cenedlaethol ar gyfer mynediad at **wasanaethau gofal sylfaenol brys** y tu fewn ac y tu allan i oriau, neu gymorth ar gyfer yr agenda iechyd poblogaeth ehangach, gan ymgymryd â **monitro cyflyrau** cleifion o bell drwy ddyfeisiadau **gwisgadwy** o bosibl.

Yn yr adrannau isod, rydym yn nodi rhai o'r blaenoriaethau ar gyfer pob un o gydrannau'r gwasanaeth 111, a sut maent yn cyfrannu at y nodau a'r canlyniadau cyffredinol yr ydym yn gweithio tuag atynt.



111 Digidol

Cynnig digidol modern, hawdd ei gyrraedd, hawdd ei ddefnyddio wedi'i integreiddio ag Ap GIG Cymru a'r gwasanaeth teleffoni 111, sy'n gweithredu fel porth i'r wybodaeth, y cyngor a'r gofal sydd eu hangen ar gleifion



Ar draws gwasanaeth GIG 111 Cymru, mae cyfle i weithio gyda phartneriaid i adeiladu ar ein llwyfannau digidol i sicrhau'r cymorth mwyaf posibl i gleifion, gofalwyr, dinasyddion, trinwyr galwadau a chynghorwyr clinigol. **Mae gwefan GIG 111 Cymru** yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol, a gwelwn gyfleoedd i alinio ei datblygiad yn agosach â strategaeth ddigidol a data Cymru. Mae'n debygol, yn y dyfodol, mai Ap GIG Cymru fydd y porth digidol



ar gyfer pobl Cymru sydd angen cyngor gofal brys a chyfeirio, a bydd angen i'n cynnig digidol gael ei integreiddio'n llawn. Dros y tair blynedd nesaf, byddem yn disgwyl gweld **ein sianeli digidol a theleffoni yn cael eu hintegreiddio** fel bod cleifion yn gallu trosglwyddo'n ddi-dor o un i'r llall.

Er bod Gwefan 111 GIG Cymru a gwirwyr symptomau ar-lein yn cael miliynau o ymweliadau unigryw bob blwyddyn, mae adborth cleifion yn nodi bod **llawer i'w wneud i wella'r cynnig**. Mae rhywfaint o arian ar gael eleni sydd wedi caniatáu ar gyfer gwelliannau bach i hygyrchedd, defnyddioldeb, saernio dewis a thudalennau gofal wedi'i gynllunio ac mae'r angen i gynnal adolygiad llawn yn un hirsefydlog.

Yn 2024, mae **adolygiad o'r wefan bresennol** wedi'i gomisiynu. Bydd hyn yn nodi'r gwelliannau sydd eu hangen o ran dyluniad pen blaen, cynnwys clinigol a chyfathrebu, strwythur platfformau, adroddiadau a mewnwediadau, strategaeth cynnyrch a llif gwasanaeth. Bydd ei allbynnau yn ein helpu i fynegi'r **opsiynau ar gyfer dyfodol y cynnig digidol 111**, a'r cyllid sydd ei angen i'w ddefnyddio'n gynaliadwy fel offeryn i liniaru pwysau ar y system, cynyddu profiad defnyddwyr, rheoli'r galw am gysylltiadau ffôn GIG 111 Cymru a chreu pwynt mynediad digidol yn gyntaf ar gyfer gofal brys yng Nghymru. Rydym yn parhau i bwysu ar gomisiynwyr o ran cyllid rheolaidd ychwanegol y mae ei angen ar frys i wireddu'r uchelgeisiau hyn.



Trin galwadau

Ateb galwadau'n gyflym, brysbennu cychwynnol ac atgyfeirio ymlaen, rhan o'r porth i unrhyw un ag anghenion gofal arferol neu frys.



Mae **perfformiad ateb galwadau** yn gyflym ac o ansawdd uchel yn allweddol i brofiad rhagorol y claf ac yn darparu hyder yn y gwasanaeth. Rydym wedi cyflawni gwelliannau sylweddol mewn perfformiad trin galwadau ac amseroedd ffonio'n ôl clinigol yn ystod y 12 mis diwethaf, gan gyrraedd y targedau ar gyfer sawl mis. Mae angen gwelliannau pellach a chysondeb ar draws yr wythnos o hyd.

Bydd ymdrechion **recriwtio a hyfforddi** wedi'u targedu yn sicrhau ein bod yn cyflawni'r lefelau trin galwadau a gomisiynir, y cytunir arnynt ar hyn o bryd ar 190 o staff cyfwerth ag amser llawn. Yn 2024/25 byddwn yn comisiynu **adolygiad galw a galluedd** strategol a fydd yn ein galluogi i **ail-drefnu** ein galluedd i mewn i 2025/26. Bydd gweithredu mesurau gwella perfformiad a phrosesau, lleihau lefelau salwch, adolygu'r cymysgedd sgiliau a chyfleoedd dilyniant gyrfa, a gwireddu'r buddion o weithredu systemau 111 (isod) yn ein galluogi i wneud y mwyaf o'r gwerth o'n hadnodd trin galwadau ac felly sicrhau gwelliannau parhaus mewn amseroedd ateb galwadau.



Gwasanaeth asesu clinigol o bell

Aseiad, cyngor ac atgyfeirio clinigol amserol o ansawdd uchel i lwybrau sy'n diwallu anghenion cleifion. Ni fydd angen unrhyw ymyriad pellach ar lawer o gleifion.

Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd



Mae cyflwyno technoleg i gefnogi asesu o bell yn allweddol o fewn ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio wrth i ni geisio manteisio ar gyfleoedd i ddarparu gofal yn nes at y cartref.

Un o'n huchelgeisiau yw datblygu'r gwasanaeth fel bod anghenion mwy o gleifion yn cael eu diwallu heb fod angen eu cyfeirio ymlaen. Mae hyn hefyd yn flaenoriaeth i gomisiynwyr ac mae wedi'i gynnwys yn ein bwriadau comisiynu. Gallwn gyflawni hynny drwy gynyddu **galluedd a galluogrwydd ein timau clinigol** - tyfu, datblygu a galluogi ein gweithlu clinigol a rhoi iddynt yr hyfforddiant, y sgiliau, a'r cymorth cywir i ragori ym mhopeth maent yn ei wneud.



Mewn perthynas â **galluedd**, byddwn yn ceisio recriwtio hyd at lefelau a gomisiynir o glinigwyr, **103 o staff cyfwerth ag amser llawn** fel y cytunwyd arnynt ar hyn o bryd, ac fel rhan o'n cynnig o ran recriwtio a chadw staff, byddwn yn ceisio cyflwyno **opsiwn gweithio'n gyfan gwbl o adref** i staff. Ar hyn o bryd, mae pob clinigwr yn y gwasanaeth hwn yn nyrsys neu'n barafeddygon. Byddai cyflogi clinigwyr o broffesiynau ac arbenigeddau eraill, fel sydd gennym o fewn ein Desg Gymorth Clinigol 999, yn ein galluogi i gynyddu gwybodaeth a phrofiad cyffredinol o fewn y tîm, cynyddu hyder ac ymreolaeth ac arwain at ganlyniadau gwell i gleifion.

Yn 2024/25 byddwn yn ystyried yr achos dros newid y **cymysgedd sgiliau** o fewn yr adnoddau presennol, cyflogi **fferyllwyr** ac arweinwyr clinigol **anadlol a phediatrig**. Bydd buddion yn cael eu gwerthuso, ac ystyrir

newidiadau pellach i'r cymysgedd sgiliau ar gyfer blynyddoedd 2 a 3. Bydd hyn yn cefnogi datblygiad llwybrau gyrfa a chyfleoedd sy'n denu ac yn cadw cydweithwyr sy'n gweithio yn GIG 111 Cymru, yn benodol ar gyfer clinigwyr sy'n ceisio **gyrfaoedd seiliedig ar bortffolio**.

Bydd **galluoedd** y timau'n cael eu gwella trwy ein gwaith gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i ddarparu **cymhwyster gwneud penderfyniadau clinigol o bell** yng Nghymru, y gobeithir ei gyflawni yn ystod 2024/25. Bydd y '**Rhaglen Gweithlu Hyderus a Chlinigol Gymwys**', a arweinir gan ein clinigwr ymgynghorol 111, yn parhau dros y ddwy flynedd nesaf. Yn olaf, byddwn yn treialu'r defnydd o **ymarfer uwch** o fewn y lleoliad clinigol anghysbell ac yn edrych i ehangu hyn dros y tair blynedd.

Mae'r system cymorth penderfyniadau cyfrifiadurol yn hollbwsig i'r gwasanaeth 111. Nid yw ein system Gwasanaeth Asesu Clinigol (CAS) bresennol, sy'n cynnal yr Offeryn Blaenoriaethu Galwadau (CSPT) anghlinigol ac ymgynghoriad clinigol, bellach yn addas i'r diben. Mae rhaglen gaffael a gweithredu wedi bod ar y gweill ers mis Tachwedd 2023 ar gyfer un newydd. Daw'r contract CAS etifeddol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth i ben ar 20 Mai 2024 ac ni ellir ei ymestyn. Byddwn yn amnewid ac yn mynd yn fyw gyda **system newydd erbyn 30 Ebrill 2024**. Bydd y buddsoddiad hwn mewn system CAS 111 newydd yn galluogi parhad gwasanaeth 111 Cymru yn ddiogel, ond oherwydd y caffael a'r defnydd cyflym, bydd angen gwneud rhagor o waith dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i ddatblygu'r elfennau amrywiol ymhellach er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl.

Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd



Mae cyflwyno technoleg i gefnogi asesu o bell yn allweddol o fewn ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio wrth i ni geisio manteisio ar gyfleoedd i ddarparu gofal yn nes at y cartref.

Bydd y system newydd yn defnyddio'r un feddalwedd brysbennu â'r hyn a ddefnyddir gan ein desg gymorth clinigol ar gyfer galwadau 999. Bydd hyn o fudd i **ryngweithredu rhwng 111 a 999** gan gefnogi ein huchelgais i integreiddio swyddogaethau clinigol y gwasanaethau hynny. Bydd y system hefyd yn hwyluso gweithrediad llawn llwybrau, megis iechyd meddwl pwyswch 2 a mynediad deintyddol. Bydd y system newydd felly yn sicrhau profiad mwy di-dor i'n cleifion, gan sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cyngor cywir yn y lle iawn bob tro.



Mynediad at lwybrau

Ystod eang o lwybrau ar gael drwy'r gwasanaeth 111, sy'n fwyfwy ar gael i'w harchebu'n uniongyrchol, gan integreiddio gwybodaeth yn ddi-dor i gael y gofal iawn i gleifion yn y lle cywir

Fel y nodir yn y bwriadau comisiynu, byddwn yn gweithio gyda ffrydiau gwaith trawsnewidiol y Rhaglen Chwe Nod (Nod 2), yn benodol datblygu 'Llwybrau Clinigol Gwell', a fydd yn cynnwys y canlynol:





- Datblygu llwybr Gofal Lliniarol
- Model Rheoli Meddyginiaethau
- Cyswllt Ymgynghorydd a chefnogaeth i Gartrefi Gofal
- Cyfeiriadur Gwasanaethau
- Archebu Uniongyrchol (mae'r archeb uniongyrchol gyntaf i Ofal Sylfaenol Brys wedi'i rhoi ar waith yn yr uned rheoli sylfaenol yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf)



Integreiddio gwasanaethau 111 a 999 yn y dyfodol

Rydym wedi disgrifio yma sut y bydd y gwasanaeth 111 yn dod yn Borth i wasanaethau gofal brys 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos sy'n diwallu anghenion cleifion. Mae yna lawer o gleifion sy'n ffonio 999 sydd hefyd ag anghenion gofal brys, yn hytrach nag anghenion gofal argyfwng. Gydag integreiddio swyddogaethau comisiynu, bydd cyfle i archwilio sut y gallwn ddarparu un **gwasanaeth gofal integredig o**

bell ni waeth beth yw llwybr mynediad cleifion yn wreiddiol. Dylai llwybrau sydd ar gael i gleifion 111 hefyd fod ar gael i'r rhai sy'n ffonio 999 lle bo hynny'n briodol ac i'r gwrthwyneb. Ein bwriad yw datblygu achos dros integreiddio ac alinio llwybrau a phrosesau ond hefyd dod â galluedd clinigol o bell o fewn y Ddesg Gymorth Clinigol ac 111 ynghyd fel **tîm asesu clinigol o bell integredig yn 2025/26**. Mae hwn yn gysyniad lefel uchel ar hyn o bryd a bydd angen trafodaeth lawer manylach gyda'r ddau gomisiynydd a chyda'n pobl ac rydym yn ymrwmo i **datblygu cynigion ar y cyd**, gan wrando'n benodol ar anghenion ein staff.

Amcan IMTP	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3
 <p><i>Cynnig digidol modern, hygyrch, hawdd ei ddefnyddio ac integredig</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> Gweledigaeth ac achos busnes ar gyfer 'digidol yn gyntaf' erbyn diwedd Ch4 Gwelliannau â blaenoriaeth wedi'u gwneud i'r cynnig digidol presennol erbyn diwedd Ch4 (yn dibynnu ar gyllid) 	<ul style="list-style-type: none"> Cytuno a gweithredu cynllun i gyflawni gweledigaeth mewn partneriaeth ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Llywodraeth Cymru a Rhaglen Chwe Nod 	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i weithredu gweledigaeth ddigidol yn gyntaf
 <p><i>Ateb galwadau cyflym, brysbennu cychwynnol ac atgyfeirio ymlaen</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> Cynnal adolygiad o alw a galluedd yn Ch4 Cynnal lefelau staffio a gomisiynir trwy gydol y flwyddyn 	<ul style="list-style-type: none"> Aildrefnu gwasanaethau gofal integredig yn dilyn adolygiad D&C 	
 <p><i>Asesiad, cyngor ac atgyfeirio clinigol amserol o ansawdd uchel</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> System CAS 111 ar waith erbyn diwedd Ebrill (Ch1) Cynyddu gweithio amlddisgyblaethol - fferylliaeth, anadlol, newyddenedigol erbyn diwedd Ch4 Cynllunio i greu gwasanaeth gofal clinigol o bell integredig Ch4 	<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu tîm asesu clinigol o bell integredig Parhau i dyfu timau amlddisgyblaethol 	<ul style="list-style-type: none"> Un tîm asesu clinigol o bell yn ei le
 <p><i>Trosglwyddo galwyr yn ddi-dor i ystod eang o lwybrau sydd ar gael</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> Cryfhau cysylltiadau â gofal sylfaenol / y tu allan i oriau gan gynnwys Canolfan Gofal Sylfaenol Brys erbyn Ch4 Gwell mynediad at ddeintyddion ar gyfer 4 Bwrdd Iechyd erbyn Ch4 Llwybrau ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau a diwedd oes erbyn Ch4 	<ul style="list-style-type: none"> Cwmpasu cyfleoedd pellach ar gyfer cydweithio ar draws hybiau clinigol Mynediad deintyddol trwy 111 ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Gweithredu a chynyddu cyfleoedd archebu uniongyrchol 	

4.2 Gwasanaethau Meddygol Brys (EMS) - 999

Sut olwg fydd ar dda ar gyfer galwyr 999 yn 2027?

- Mae pob claf yn cael ymateb priodol ac amserol.
- Mae cleifion mewn sefyllfaoedd argyfwng neu le mae bywyd yn y fantol yn cael ymateb ar unwaith neu gyflym yn gyson.
- Mae cleifion sydd angen mynd i'r ysbyty yn cael eu cludo a'u trosglwyddo'n gyflym.
- Mae anghenion mwy o gleifion yn cael eu diwallu yn nes at y cartref.
- Mae cleifion yn profi gwasanaeth eithriadol gyda'r canlyniadau iechyd gorau posibl.



Beth fydd yn wahanol?

- Cyrraedd targed coch o 65%.
- Lleihau'r galw nas diwallwyd o hanner.
- Dyblu nifer y cleifion a reolir yn ddiogel gartref neu yn y gymuned.
- Cynyddu cyfraddau cylchrediad wedi dychwelyd yn ddigymell (ROSC) i rhwng 25-30%



Rydym wedi parhau i weld pwysau sylweddol o fewn y gwasanaeth 999 yn y 12 mis diwethaf sydd wedi arwain at **brofiad a chanlyniadau gwael iawn i gleifion**, gydag amseroedd ymateb ambiwlans yn parhau i fod yn rhy uchel ar gyfer pob categori o gleifion. Mae gormod o gleifion wedi cael niwed o ganlyniad, boed hynny drwy aros yn rhy hir am ymateb yn y gymuned, aros yn rhy hir yng nghefn ambiwlans i gael eu dadlwytho i Adran Achosion Brys neu drwy beidio â chael ambiwlans o gwbl ar adegau o gynnydd uchaf (galw nas diwallwyd). Mae hyn wedi parhau i fod yn destun llawer o drafod o fewn y sefydliad drwy gydol y flwyddyn, gyda'r **Bwrdd yn derbyn adroddiad manwl** ym mhob un o'i gyfarfodydd ar y camau sy'n cael eu cymryd i leihau a lliniaru'r niwed hwn.



Mae hyn i gyd yn cyfrannu at y pwysau y mae ein pobl wedi'i deimlo yn y gwaith, boed hynny'n rhai sy'n gweithio yn ein canolfannau rheoli, ar y ffordd neu'n cefnogi mewn adrannau corfforaethol. Mae'r pwysau i'w weld yn aml mewn lefelau uchel o **absenoldeb salwch a throsiant**, er bod gwelliannau cadarnhaol wedi bod yn ystod y flwyddyn. Clywsom yn uniongyrchol gan staff yn ystod ein sioeau teithiol a thrwy amrywiaeth o arolygon am sut deimlad oedd gweithio yn yr Ymddiriedolaeth.



Wrth inni edrych ymlaen at y tair blynedd nesaf, y flaenoriaeth glir yw **lleihau niwed i gleifion y gellir ei osgoi** a chyflawni'r uchelgeisiau a nodir uchod. Nid ydym yn credu mai gwneud mwy o'r un peth yw'r ateb, ac rydym yn argyhoeddedig bod ein **model ymateb clinigol** sy'n dod i'r amlwg, a ddarperir ar y cyd â phartneriaid gofal iechyd, yn hanfodol i gael y gofal iawn i gleifion, yn y lle iawn, bob tro.

Mae amrywiaeth o ffactorau wedi effeithio ar hyn, gan gynnwys cynnydd sylweddol pellach o **9%** yn nifer y **galwadau coch**, a cholledion galluedd parhaus oherwydd **oedi wrth drosglwyddo cleifion i ysbytai** a oedd yn cyfrif am 27% o alluedd trawsgludiad ym mis Ionawr 2024. Gwnaethom gymryd lawer o gamau lliniaru gan gynnwys cynnal lefel uchel o **gynhyrchu rheng flaen** a niferoedd bach iawn o swyddi gwag, dyblu nifer yr ymatebion **CHARU yn y fan a'r lle**, cefnogi mwy o bobl i ddychwelyd i / aros yn y gwaith, cyflwyno **ymatebwyr lles cymunedol** i gefnogi ein clinigwyr o bell gydag arsylwadau wyneb yn wyneb i helpu i wneud penderfyniadau clinigol, cynyddu nifer yr **Ymarferwyr Parafeddygol Uwch**, a gweithio gyda byrddau iechyd ar lwybrau amgen trwy gynnwys, er enghraifft, gwreiddio rolau **Ymarferwyr Parafeddygol Uwch Arweiniol** mewn pedwar lleoliad bwrdd iechyd.

Bydd angen i bob elfen o'n gwasanaeth esblygu a thrawsnewid er mwyn galluogi'r uchelgeisiau hyn i gael eu gwireddu.




Cydgysylltu'r Gwasanaethau Meddygol Brys (EMSC)

Ateb galwadau 999 ar unwaith, penderfyniad achrededig o anghenion galwyr a phrosesau effeithlon ac effeithiol i ddyrannu ac anfon yr adnoddau cywir.

Er bod prif fetrigau perfformiad ein canolfannau rheoli yn gadarnhaol, mae hwn yn amgylchedd pwysedd uchel, gyda lefelau uchel o drosiant a gwaith sydd ei angen i gyflawni ein diwylliant targed. Mae amrywiaeth o ffyrddau gwaith trawsnewid, a nodwyd yn wreiddiol yn Adolygiad Galw a Galluedd 2019, wedi derbyn buddsoddiad yn ddiweddar ac wedi'u hailddechrau, wedi'u cynllunio i wella sefydlogrwydd y gwasanaeth, gwella profiad ein pobl o fewn y gwasanaeth pwysig hwn a chyflawni amrywiaeth o welliannau effeithlonrwydd.

- **Strwythurau rheoli newydd:** gweithredu strwythur gyrfa newydd sy'n cynnig mwy o gyfleoedd i ddatblygu a chadw staff sydd eisiau gyrfa fel triniwr galwadau brys. Bydd hyn hefyd yn cefnogi trawsnewid diwylliannol yr adran.
- **Datblygu model dyrannu sengl:** Bydd hyn yn sicrhau mwy o effeithlonrwydd yn y swyddogaeth dyrannu ac anfon, yn unol ag arfer ar draws gwasanaethau ambiwlans eraill y DU.
- **Adlinio ffiniau a desgiau anfon:** Ar wahân i ledaeniad teg o waith, mae hyn hefyd yn darparu rhai newidiadau i aliniad llif cleifion ar draws ffiniau byrddau iechyd ac o un rhan o Gymru ac i'r llall.
- **Adeiladu rhestrau dyletswyddau newydd sy'n cyd-fynd â'r newidiadau hyn:** dylai rhestrau dyletswyddau adlewyrchu'r llwythi gwaith ar draws desgiau ac ar adegau pan fo'r galw wedi gostwng yn sylweddol.
- **Targedu gwaith diwylliant:** gweithio gyda'n partneriaid Undebau Llafur ar newid diwylliant gyda chynlluniau gweithredu clir yn eu lle i fynd i'r afael â themâu a materion allweddol ar draws yr ardal.

Gall y model ymateb clinigol presennol, sy'n pennu cod System Anfon Blaenoriaeth Meddygol a blaenoriaeth ymateb eang gysylltiedig (coch, oren, gwyrdd), olygu bod cleifion ag anghenion gwahanol iawn yn cael yr un ymateb eang. Rydym wedi profi'r cysyniad o **sgrinio clinigol cyflym ac anfon dan arweiniad clinigol** o fewn Cydgysylltu EMS yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'n nod yw rhoi hyn ar waith yn llawn yn ystod 2024/25 fel elfen graidd o'n model ymateb clinigol newydd. Bydd hyn yn golygu y bydd pob galwad yn cael ei hadolygu'n gyflym gan glinigwr yn syth ar ôl i'r trinwyr galwadau â'r alwad gwblhau ei waith. Bydd y clinigwyr yn cadarnhau p'un a oes angen anfon ar unwaith yn ogystal â nifer a math yr adnoddau i'w hanfon neu'n nodi'r cleifion hynny lle mae'n amlwg bod angen adnodd cludo yn gyflym, megis ar gyfer strôc. Bydd gweddill y galwadau'n cael eu trosglwyddo i'n tîm asesu clinigol o bell. Bydd **galluedd ychwanegol** yn cael ei ddefnyddio i alluogi'r swyddogaeth newydd hon.



Gwasanaeth Asesu Clinigol o Bell

Tîm aml-ddisgyblaethol yn darparu gwasanaeth brysbennu, asesu ac ymgynghori clinigol amserol o ansawdd uchel o bell, gan wneud penderfyniadau ar yr ymateb gorau i bob claf a'r system

Yn gynyddol, mae'r gwasanaeth hwn yn dod yn ganolog i'n model ymateb clinigol newydd, gan ein galluogi i sicrhau bod pob claf yn cael ymateb mwy pwrpasol a phersonol sy'n diwallu eu hanghenion, ac yn y pen draw sy'n caniatáu i fwy o gleifion gael eu trin yn ddiogel yn eu cartref neu'n nes at y cartref, gan leihau'r niferoedd sy'n cael eu cludo i Adrannau Achosion Brys.

Bydd galwadau'n cael eu trosglwyddo i'n tîm **asesu clinigol o bell** gan y clinigwyr yn yr adran Cydgysylltu EMS. Byddant yn cysylltu â'r claf dros y ffôn neu drwy alwad fideo, cynnal asesiad a phenderfynu ar yr ymateb mwyaf priodol, a all gynnwys cyngor ar hunanofal, cyfeirio at lwybrau amgen, cynghori ynghylch trafndiaeth amgen, neu anfon amrywiaeth o'n clinigwyr i gynnal asesiad yn y fan a'r lle.



Mae'n amlwg y bydd angen galluedd ychwanegol i fodloni'r galw am sgrinio clinigol cyflym (fel uchod) ac asesiad clinigol o bell, a **23 o staff cyfwerth ag amser llawn ychwanegol** yn cael ei recriwtio yn ystod chwarter cyntaf 2024/25. Mae gwaith pellach ar y gweill i bennu'r union gymysgedd o broffesiynau wrth i ni barhau i weithio ar ddatblygu mwy o wybodaeth a phrofiad amlbroffesiynol o fewn y gwasanaeth.

Gyda dros 45% o alwadau a aseswyd gan ein **hymarferwyr iechyd meddwl** yn cael eu cau, mae cynlluniau ar waith i ddefnyddio rhywfaint o'r galluedd ychwanegol hwn i ddarparu gwasanaeth iechyd meddwl 24/7 (12 awr y dydd ar hyn o bryd).

Mae **Connected Support Cymru (CSC)** yn fenter sydd wedi datblygu'n sylweddol yn ystod 2023. Gan ddechrau fel cysyniad ar gyfer cymorth dros nos o fewn bwriadau comisiynu EMS, mae hyn wedi datblygu i fod yn wasanaeth sy'n cefnogi'r tîmau clinigol o bell i alluogi gwell penderfyniadau clinigol, rheoli achosion o bell a chefnogi cleifion i aros yn ddiogel gartref. Mae hefyd yn rhoi'r cyfle i ni brofi datblygiadau digidol trwy gronfa her y Fenter Ymchwil Busnesau Bach a allai arwain at ein seilwaith yn cynnig pen blaen unwaith i Gymru i gymorth diagnostig gwisgadwy ac o bell sy'n sgrinio'n glinigol ac yn cefnogi cleifion i gael mynediad amserol i lwybrau byrddau iechyd. Felly mae gan CSC dair prif gydran:

- **Ymatebwyr Lles Cymunedol:** ochr yn ochr â'n strategaeth wirfoddoli rydym yn recriwtio hyd at 600 yn fwy o wirfoddolwyr ledled Cymru i ddarparu arsylwadau wyneb yn wyneb o gleifion yn eu cartrefi eu hunain.
- **Desg Gymorth Clinigol:** Mae clinigwyr y Ddesg Gymorth Clinigol yn adolygu arsylwadau ac yn rheoli cleifion yn eu cartrefi eu hunain fesul achos nes bod cyfle i atgyfeirio ymlaen at wasanaethau gofal cymunedol neu sylfaenol neu gau'r achos o bell.
- **'Ambiwlans mewn blwch':** datrysiad digidol sy'n cael ei ddatblygu a'i brofi dros gyfnod o 12 mis ar gyfer monitro cleifion o bell gan y Ddesg Gymorth Clinigol. Bydd ugain o'r 'blychau' hyn yn cael eu defnyddio yng nghanam 1 i brofi mewn cartrefi gofal ym myrddau iechyd Aneurin Bevan a Betsi Cadwalader, gyda 30 o 'flychau' pellach ar gael ar gyfer profion cam 2 mewn ardaloedd eraill.



Mae cynlluniau i ehangu'r cysyniad hwn fesul cam dros oes y Cynllun Tymor Canolig Integredig hwn ac iddo yn y pen draw ein galluogi i wneud y mwyaf o'n harbenigedd mewn rheolaeth glinigol o bell a defnyddio technoleg o bell mewn dull 'unwaith i Gymru', gan gefnogi a galluogi strategaethau a chynlluniau byrddau iechyd. Er ein bod wedi sicrhau rhywfaint o arian elusennol a Menter Ymchwil Busnesau Bach i gefnogi Cam

1, dim ond drwy fuddsoddiad ychwanegol y bydd budd llawn y gwasanaeth hwn yn cael ei wireddu, gydag **achos busnes** yn cael ei ystyried ar lefel genedlaethol ar hyn o bryd.

Rhaid inni wneud y mwyaf o werth yr adnodd clinigol gwerthfawr hwn, ac felly bydd gwaith hefyd yn cael ei wneud dros gyfnod y Cynllun Tymor Canolig Integredig i weithio gyda'n pobl i symud tuag at ein **diwylliant** taged, cefnogi staff a'u llesiant i wella presenoldeb, parhau i ddatblygu a gwella'r ffordd y defnyddir **system feddalwedd System Hysbysu Clinigol Electronig (ECNS)**, gwella **effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd** prosesau o fewn yr adran, a datblygu mecanweithiau **casglu data** mwy **soffistigedig** i gefnogi gwell dealltwriaeth o'r gwasanaeth.

Yn dilyn adolygiad annibynnol o'r Ddesg Gymorth Clinigol gan yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol yn 2023, derbyniwyd nifer o argymhellion, yn bennaf ynghylch yr angen i ddatblygu gweithdrefn weithredu safonol ar gyfer y gwasanaeth yn ogystal â gwella'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei fesur a'i fonitro. Bydd y rhain yn cael eu gweithredu yn 2024/25.

Ar gyfer 2025/26 a 2026/27 disgwylir trawsnewid pellach wrth i'r model ymateb clinigol newydd ddechrau dod i'r amlwg. Yn benodol, wrth i ni ystyried ein hymateb i bob claf ag anghenion gofal brys sy'n defnyddio ein gwasanaethau ar hyn o bryd naill ai drwy ffonio 111 neu 999, byddwn yn ystyried sut y gallwn wneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau clinigol o bell a byddwn yn gweithio i greu un **canolbwyt asesu clinigol integredig** yn 2025/26.



Gwasanaeth 24 awr y dydd , 7 diwrnod yr wythnos yn darparu asesiad clinigol, triniaeth ac atgyfeirio yn y fan a'r lle

Ystod o glinigwyr sy'n darparu gwasanaeth asesu, gofal a chyfeirio o ansawdd uchel yn y fan a'r lle, yn syth neu'n amserol.

Mae angen inni gymryd camau i sicrhau bod digon o alluedd ar gael ledled Cymru i ddarparu **ymateb brys o'r radd flaenaf ar unwaith** i'r cleifion mwyaf difrifol wael a **thrawsgludiad amserol** i'r ysbyty ar gyfer y rhai sydd angen y lefel honno o ofal. Bydd y meysydd gweithredu yn cynnwys:

- Cyllid rheolaidd ar gyfer y **100 o barafeddygon a thechnegwyr cyfwerth ag amser llawn** ychwanegol a recriwtiwyd y llynedd;
- Cefnogaeth i swyddogaethau recriwtio a hyfforddi i **gynnal galluedd ar lefelau a gomisiynir**, tra'n llyfnhau cydbwysedd y gweithlu sydd ar gael rhwng **ardaloedd trefol a gwledig**;
- Staffio'r **gwasanaeth CHARU** yn llawn, gyda recriwtio â ffocws i ardaloedd gwledig a chamau wedi'u cymryd i **addasu'r model** i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i gleifion;
- Datblygu gwell llwybrau gyrfa i staff, gan gynnwys adolygu'r rôl **technegydd Band 4**;
- Cynyddu galluedd trwy barhau â'n rhaglen o **reoli presenoldeb** tuag at darged o 6% dros y tair blynedd;
- Gweithio'n agos ar bob lefel gyda byrddau iechyd i'w helpu i **leihau oedi wrth drosglwyddo** ac i gysoni ein trefniadau **uwchgyfeirio** â'u rhai nhw. Byddwn yn modelu'r lefel gywir o alluedd yn barhaus wrth i lefelau trosglwyddo ostwng.

Byddwn yn datblygu ac yn cynyddu ein galluedd a'n galluoedd i ddarparu'r gofal iawn i'r cleifion hynny sydd ag **anghenion iechyd brys yr un diwrnod**, gan drin mwy o gleifion yn y fan a'r lle neu, lle bo angen, eu hatgyfeirio'n hyderus ac yn ddiogel at wasanaethau bwrdd iechyd yn y gymuned, gan osgoi'r angen am drawsgludiad a derbyniadau posibl i ofal eilaidd a helpu i leihau pwysau ar y system. Mae'n amlwg i ni y bydd angen ystod o wahanol ymatebion, y byddwn yn darparu rhai ohonynt ein hunain ac eraill a ddarperir mewn **partneriaeth â byrddau iechyd** neu ddarparwyr gofal iechyd eraill. Mae'r meysydd ffocws yn y tair blynedd nesaf wedi'u nodi isod.

Ymarferwyr Parafeddygol Uwch

Ein huchelgais fydd i dyfu ein gweithlu Ymarferwyr Parafeddygol Uwch **hyd at 40 y flwyddyn** am y tair blynedd nesaf (**16 ym Mlwyddyn 1**). Bydd hyn yn golygu darparu rolau parhaol i'r rhai sy'n cwblhau'r rhaglenni addysg meistr presennol yn llwyddiannus, ond bydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni gynyddu nifer y rhai mewn addysg sydd ar y gweill. Bydd y gweithlu hwn nid yn unig yn cael **ei ddefnyddio o fewn yr Ymddiriedolaeth**, gan ddarparu gofal clinigol yn uniongyrchol i gleifion ag anghenion gofal brys sy'n cyrchu ein gwasanaethau ond gallai hefyd gael ei ymgorffori yng ngwasanaethau'r bwrdd iechyd, lle mae galw am eu sgiliau a'u profiad. Mae enghreifftiau ar hyn o bryd yn cynnwys modelau cylchdroi o fewn gofal sylfaenol, y tîm Mwy Diogel yn y Cartref yng Nghaerdydd a'r Fro ac arweinwyr Ymarferwyr Parafeddygol Uwch yn gweithio mewn lleoliadau clinigol amlddisgyblaethol o bell mewn tair ardal bwrdd iechyd.

Er mwyn llywio'r model ymateb clinigol newydd, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wneud y gorau o'r prosesau anfon trwy 'brofion newid' i sicrhau bod Ymarferwyr Parafeddygol Uwch yn cael eu dyrannu i'r galwadau cywir sy'n cyd-fynd â'r manau lle maent yn cynnig y buddion mwyaf i gleifion a systemau. Gyda llawer o'n Ymarferwyr Parafeddygol Uwch bellach **yn bresgripsiynwyr annibynnol**, dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn symud i sefyllfa lle gall pob Ymarferydd Parafeddygol Uwch ragnodi.

Wrth i'r gweithlu hwn dyfu, bydd angen i ni sicrhau bod arweinyddiaeth a goruchwyliaeth glinigol gadarn ar waith, ac yn 2024/25 byddwn yn nodi ac yn gweithredu **strwythur arweinyddiaeth glinigol newydd** a fydd yn galluogi ein Ymarferwyr Parafeddygol Uwch i weithredu'n ddiogel ac yn hyderus ar frig eu set sgiliau.

Gwasanaeth Cwmpiadau

Dros y blynyddoedd nesaf byddwn yn adolygu'r model darparu ar gyfer cwmpiadau gan gynnwys **gwasanaethau cwmpiadau Lefel 1 a Chwmpiadau ac Eiddilwch Lefel 2**, gan ystyried y modelu galw a galluedd a gyflawnwyd a chyda'r rheidrwydd i amlinellu model sy'n galluogi cleifion i gael eu codi'n gyflym ac yn ddiogel o'r llawr, gan leihau effaith cyfnodau hir o fod ar y llawr yn dilyn cwmpiad a gwella canlyniadau clinigol dilynol. Mae'r gwasanaeth Lefel 2 uwch yn cynnig ymateb i gleifion sy'n profi cymhlethdod, sy'n profi cychwyniad neu waethygiad symptom eiddilwch, gan ddarparu mynediad at ymateb amserol, cael cymorth yn nes at y cartref, gan weithio mewn partneriaeth â byrddau iechyd. Byddwn yn edrych i ehangu nifer y gwasanaethau Lefel 2 cyn y gaeaf nesaf.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Byddwn yn datblygu ein **Cynllun Iechyd Meddwl a Dementia**, gan weithio gyda phartneriaid Llywodraeth Cymru ar y strategaeth iechyd meddwl 10 mlynedd newydd i Gymru.

Mae galwadau iechyd meddwl yn cynrychioli tua 10% o'r galw am ambiwlans ac yn parhau i gynyddu. Mae'r galwadau hyn yn aml yn gymhleth ac yn her sylweddol i weithlu cyffredinol. Mae defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl ddwywaith yn fwy tebygol o brofi amseroedd aros sylweddol nag eraill yn yr amgylchedd hynod anaddas hwn pan fyddant mewn trallod. Fodd bynnag, trwy gyflwyno **Ymarferwyr Iechyd Meddwl** yn ein Desg Gymorth Clinigol, rydym wedi gwneud



gwelliannau cadarnhaol gan sicrhau cyfraddau ymgynghori a chau uwch gan leihau'r angen am ambiwlansys a lleihau'r effaith ar Adrannau Achosion Brys.

Er y bu gwelliannau sylweddol i gleifion, mae'n dal i fod yn wir y bydd angen asesiad wyneb yn wyneb o hyd ar gyfran o'n galwadau iechyd meddwl. Mewn ardaloedd eraill o'r DU mae **cerbydau ymateb iechyd meddwl** wedi'u cyflwyno i fynd i'r afael â'r angen hwn gan arwain at gyfraddau gweld a thrin uwch a llai o drawsgludiadau i adrannau brys. Mae ein tîm wedi adolygu canlyniadau o feysydd eraill gyda chyfraddau gweld a thrin sylweddol o 85%, gyda 95% o adborth staff cadarnhaol a chanfyddiad 100% gan staff bod defnyddwyr gwasanaeth wedi elwa o'r gwasanaeth.

Ar hyn o bryd rydym yn profi ymateb iechyd meddwl mewn cydweithrediad â BIP Aneurin Bevan, gyda data cynnar yn awgrymu perfformiad yn unol â chanfyddiadau yn Lloegr. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth i gadarnhau'r model yr ydym am ei ddefnyddio ac yna'n ei roi ar waith mewn meysydd allweddol ledled Cymru. Byddwn yn archwilio'r cyfle i gynyddu gallu'r Ymarferwyr Iechyd Meddwl a chreu gyrfa bortffolio sy'n ein galluogi i ymateb o bell ac yn bersonol drwy'r Cerbyd Ymateb Iechyd Meddwl i bobl mewn argyfwng.

Yn ogystal, rydym yn bwriadu datblygu ein cynnig iechyd meddwl ymhellach i sicrhau bod gennym y galluedd a'r galluoegrwydd i ymateb i **weithrediad 'y Gofal Cywir, y Person Cywir'** ([Dolen](#)). Mae effaith hyn mewn meysydd lle mae wedi'i weithredu wedi bod yn sylweddol i wasanaethau ambiwlans; o fewn Gwasanaeth Ambiwllans De Orllewin Lloegr maent wedi profi cynnydd o 25% mewn cyswllt iechyd meddwl ac yng Ngwasanaeth Ambiwllans Llundain mae dros hanner eu cerbydau ymateb iechyd meddwl wedi'u dyrannu i ddiwallu'r galw am y Gofal Cywir, y Person Cywir. Heb fwy o adnoddau, mae perygl y bydd cleifion ag anghenion iechyd meddwl yn disgyn rhwng gwasanaethau (Heddlu/GIG/Gwasanaethau Cymdeithasol) ac yn cael eu gadael heb y cymorth a'r driniaeth sydd eu hangen arnynt gan wneud yr ymddiriedolaeth yn agored i risgiau sefydliadol.

Byddwn yn parhau i **ddatblygu ein hyfforddiant mewnol ar gyfer ein pobl** i'w cefnogi gyda'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gefnogi anghenion iechyd meddwl gan gynnwys iechyd meddwl plant a phobl ifanc, iechyd meddwl amenedigol ac anhwylderau personoliaeth. Yn ogystal â hyn, ers mis Mai 2023 rydym wedi cynnig hyfforddiant wythnosol ar gyfer cymorth cyntaf hunanladdiad mewn ystafell ddsbarth rhithwir i holl staff yr Ymddiriedolaeth. Yn olaf, mae'r tîm yn uchelgeisiol bod yr hyfforddiant a ddarperir i staff yn cael ei ffurfioli trwy ddarparu a datblygu modiwl asesu argyfwng iechyd meddwl lefel 7 er mwyn datblygu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad ein pobl ymhellach wrth drin cleifion iechyd meddwl yn effeithiol; mae trafodaethau ar y gweill gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i gyflawni hyn.

Byddwn yn parhau i symud ymlaen i sefydlu ein **cyfluniad gorau ar gyfer amgylcheddau ambiwlans sy'n deall dementia** drwy sefydlu rhaglen i asesu menter genedlaethol a chyfleoedd sydd ar gael i'r Ymddiriedolaeth. Mae'r Tîm Iechyd Meddwl a Dementia wedi cwblhau Cam 1 o'r rhaglen hon wrth dreialu tabledi Gweithgareddau Therapi Rhyngweithiol Atgofion (RITA) yn ein hambiwllansys. Mae cynllun peilot RITA bellach wedi'i werthuso gyda chanlyniadau cadarnhaol ac mae trafodaethau parhaus gyda'n comisiynwyr i archwilio opsiynau ariannu a'i gyflwyno ymhellach.

Mae Cam 2 yn gynllun peilot 12 mis a ddechreuodd ym mis Medi 2023 gan ganolbwyntio ar yr amgylcheddau ambiwlans mewnol a gwella eu hestheteg i **hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol a therapiwtig sy'n deall dementia**. Mae'r peilot yn cael ei gynnal yn ardal Ceredigion ac mae'n defnyddio delweddau lleol ar ffenestri, llyfrynnau hel atgofion a therapi cerdd ar gyfer 2 gerbyd NEPTS. Yn olaf, mae'r tîm wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro i archwilio llwybrau yn eu Hadran Achosion Brys ar gyfer cleifion dementia, gan ganolbwyntio ar y broses dderbyn, gwelliannau i'r amgylcheddau trosglwyddo, hyfforddiant ac adrannau brys.

Anableddau Dysgu a Niwroamrywiaeth

Mae rhaglen helaeth o waith ymgysylltu a datblygu wedi'i chynnal i wella'r profiadau a'r canlyniadau i'r rhai ag anabledd dysgu sy'n defnyddio gwasanaeth yr Ymddiriedolaeth, a bydd hyn yn parhau.

Ym mis Medi 2023 gwahoddwyd cynrychiolwyr a'u cyflwyno i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu ar y cynnydd a wnaed mewn meysydd allweddol ac uchelgeisiau'r Ymddiriedolaeth o ran sut y gallai ddiwallu anghenion pobl ag anabledd dysgu wrth symud ymlaen. Cafodd y cyflwyniad dderbyniad da ac arweiniodd at drafodaethau gan gynnwys tynnu sylw at unigolion, systemau sy'n siarad â'i gilydd er mwyn i glinigwyr allu dysgu am anghenion unigolion, galwyr cyson, croestoriad anabledd dysgu, cymunedau niwroamrywiol a lleiafrifoedd ethnig a chyfleoedd ymgysylltu a rhwydweithio pellach.

Felly byddwn yn datblygu cynllun yn nodi sut yr ydym yn **cefnogi pobl ag anableddau dysgu a defnyddwyr gwasanaethau niwroamrywiol** drwy gydol cyfnod y Cynllun Tymor Canolig Integredig hwn.

Mynediad at lwybrau amgen

Mae nifer ein cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio'n ddiogel i lwybrau amgen wedi parhau'n isel ers blynnyddoedd lawer. Fel rhan o'u strategaethau a'u cynlluniau, mae byrddau iechyd yn parhau i ddatblygu eu cynnig ataliol yn ogystal â chynyddu nifer y gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol sy'n caniatáu i gleifion aros gartref. Bydd mynediad uniongyrchol at y gwasanaethau hyn i'n clinigwyr o bell neu glinigwyr ffyrdd eu defnyddio yn helpu i leihau cludo i adrannau brys. Bydd ein timau'n parhau i ymgysylltu â chydweithwyr yn y byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru drwy gyfarfodydd Cynlluniau Gweithredu Comisiynu Integredig a'r rhaglen Chwe Nod i ddylanwadu ar yr agenda hon a'i llywio. Mae'r rhaglen chwe nod yn canolbwyntio ar atgyfeiriadau i **Ofal Brys yr Un Diwrnod**, lle mae potensial i tua 4% o'n galw gael ei atgyfeirio i'r gwasanaethau hyn ond mae hefyd yn gweithio ar lwybrau ar gyfer grwpiau penodol o gleifion megis y rhai sy'n profi **chwypiaidau, poen yn y frest, problemau anadlu a'r rhai ag anghenion iechyd meddwl**. Mae ein Uwch Ymarferwyr Parafeddygol hefyd yn cynnig manteision o ran darparu llwybr o fewn WAST ar gyfer rhai o'r cyflyrau hyn.

Mae'r newidiadau yr ydym wedi'u hamlinellu yma, ynghyd â gostyngiadau mewn oedi wrth drosglwyddo, wedi'u modelu yn ein Hadolygiad o'r Galw a Galluedd EMS 2023, gyda chanlyniadau cychwynnol a drafft yn dangos ei bod yn bosibl darparu gwasanaeth i Gymru sy'n ymateb ar unwaith yn gyson i'r rhai sydd ag anghenion sy'n bygwth bywyd neu anghenion brys yn ogystal â gwella canlyniadau i bob claf arall trwy ddarparu ymateb mwy pwrpasol a phriodol sy'n diwallu eu hanghenion. Bydd yr Adolygiad Galw a Galluedd EMS strategol annibynnol a chydweithredol hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor Comisiynu newydd yn hanner cyntaf 2024/25 i benderfynu ar y camau nesaf a buddsoddiad yn y dyfodol.

4.2.1 Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys a gweithrediadau arbenigol

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymatebwr categori un o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, y fframwaith ar gyfer amddiffyn sifil ledled y DU. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn pennu sut rydym yn cynllunio ar gyfer







argyfyngau ac yn ymateb iddynt, yn rheoli ein trefniadau parhad busnes, ac yn cydweithredu ag asiantaethau eraill. Mae un o elfennau allweddol ein parodrwydd yn ymwneud ag Ymchwiliad Arena Manceinion. **Ymchwiliad Arena Manceinion:** Rhyddhawyd Cyfrol 2 ar 22 Tachwedd 2022. Gwnaed 149 o argymhellion yn yr adroddiad ac mae'n ofynnol i bob gwasanaeth brys ledled y DU asesu eu galluoedd eu hunain yn erbyn yr argymhellion hyn. Ar ôl cynnal yr adolygiad hwnnw, byddwn yn gwneud argymhellion i'n comisiynwyr yn manylu ar yr adnoddau ychwanegol neu wahanol sydd eu hangen i sicrhau ein bod yn gallu ymateb yn effeithiol i ddiwyddiad anafusion torfol yn y niferoedd sydd eu hangen.

4.2.2 Gwirfoddolwyr

Mae eleni yn nodi **Blwyddyn 4 o'n strategaeth wirfoddoli gyntaf**. Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ym mlynnyddoedd 1 i 3 o ran datblygu ein cynnig gwirfoddoli a gwreiddio ein gwirfoddolwyr o fewn Tîm WAST, mae mwy i'w wneud o hyd.

Mae **datblygu ein rôl Ymatebwr Lles Cymunedol** fel rhan o raglen ehangach Connected Support Cymru wrth wraidd ein profiad gwirfoddoli gwell. Yn ogystal, **bydd ein system rheoli gwirfoddolwyr newydd hefyd yn mynd yn fyw**, gan symleiddio llawer o'n prosesau gweinyddol a gwella ein systemau gwybodaeth. Byddwn hefyd yn datblygu ein model seiliedig ar swyddogaeth ar draws ein tîm rheoli gwirfoddolwyr ac yn parhau i gynyddu ein niferoedd o Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned a Gyrrwyr Ceir Gwirfoddol gyda rhaglenni recriwtio uchelgeisiol ar draws y ddwy raglen.



	Amcan IMTP	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3
	<i>Ateb galwadau 999 ar unwaith, a dosbarthu'r adnodd cywir yn effeithlon ac yn effeithiol</i>	<ul style="list-style-type: none"> Strwythur rheoli newydd EMSC Ch2 Gweithredu model dyrannu sengl, adolygu rhestrau dosbarthu a newidiadau i ffiniau Ch2 Darparu cymorth wedi'i dargedu ynghylch diwylliant a newid Ch4 Gweithredu sgrinio clinigol cyflym ac anfon Ch3 	<ul style="list-style-type: none"> Achos(ion) busnes CAD EMS & NEPTS wedi'u hysgrifennu 	
	<i>Brysbennu, asesu ac ymgynghori clinigol o ansawdd uchel, amserol, gydag ymateb personol</i>	<ul style="list-style-type: none"> Recriwtio 23 o glinigwyr o bell ychwanegol o Ch1 Connected Support Cymru: Defnyddio 600 o Ymatebwyr Cymunedol / 50 'ambiwlans mewn blwch' trwy gydol y flwyddyn Cytuno ar fodel ymateb clinigol newydd Ch2 Cwmpas rhyngweithredu o 111/ 999 erbyn Ch4 	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu achos busnes ar gyfer cyllid parhaus ar gyfer CSC Recriwtio a thfyfu timau amlddisgyblaethol Technoleg gwisgadwy ar waith 	<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu CSC llawn (yn amodol ar gyllid) Un tim asesu clinigol o bell
	<i>Asesu, gofal a chluddiant o ansawdd uchel, yn syth neu'n amserol lle bo angen</i>	<ul style="list-style-type: none"> Cynnal lefelau staffio a gomisiynir, a llyfnu rhwng ardaloedd trefol a gwledig Ch4 Cyflwyno CHARU Ch2 yn llawn a gweithredu cynllun i wella effeithiolrwydd Ch3 Cyflugi 16 o APP yn cwblhau graddau Meistr Ch2 Comisiynu 16 o leoeidd hyfforddi APP yn Ch3 Gweithredu arweinyddiaeth glinigol APP Ch2 Blwyddyn 4 - camau gweithredu'r strategaeth wirfoddoli Ch4 Achos buddsoddi Ymchwiliad Arena Manceinion wedi'i gwblhau Ch1 Datblygu ymateb i'r Gofal Cywir, y Person Cywir a'i rannu gyda chomisiynwyr Ch1 	<ul style="list-style-type: none"> Twf pellach yn niferoedd APP (hyd at 40) Cytunwyd ar strategaeth ar gyfer gwreiddio APP mewn Byrddau Iechyd Ehangu nifer y rhagnodwyr APP Gweithredu argymhellion Ymchwiliad Arena Manceinion yn amodol ar fuddsoddiad Gweithredoedd Blwyddyn 5 - strategaeth wirfoddoli 	<ul style="list-style-type: none"> Twf pellach yn niferoedd APP (hyd at 40) Mae holl APP bellach yn rhagnodwyr Gweithredu argymhellion Ymchwiliad Arena Manceinion yn amodol ar fuddsoddiad Strategaeth gwirfoddoli newydd
	<i>Amrywiaeth o lwybrau 24/7 ar gael ar gyfer asesiad neu driniaeth bellach, yn nes at y cartref</i>	<ul style="list-style-type: none"> Gwerthusiad o fodel llywio APP Ch3 Gwerthusiad o ymateb meddwl yn AB a dylunio a defnyddio model Ch3 Gwerthuso gwasanaethau cwmpadau ac eiddilwch ac ehangu Lefel 2 Ch4 Gweithio gyda byrddau iechyd i wella mynediad at ofal brys yr un diwrnod drwy gydol y flwyddyn 	<ul style="list-style-type: none"> Ymateb iechyd meddwl wedi'i ehangu i fwy o ardaloedd byrddau iechyd Ehangodd cwmpadau lefel 2 i fwy o ardaloedd byrddau iechyd 	<ul style="list-style-type: none"> Adolygwyd ymateb iechyd meddwl i sicrhau cynaliadwydd a gwerth Ehangodd cwmpadau lefel 2 i fwy o ardaloedd byrddau iechyd

4.3 Gofal Ambiwllans

Sut olwg fydd ar dda ar gyfer defnyddwyr Gofal Ambiwllans yn 2027?

- Mae cleifion cymwys yn derbyn gwasanaeth cludiant prydlon, modern i'w hapwyntiadau gyda systemau archebu ac olrhain hawdd.
- Mae cleifion y mae angen eu trosglwyddo o un ysbyty i'r llall yn cael eu cludo i'r lle iawn yn gyflym ac yn ddiogel, sy'n helpu ysbytai i reoli llif.
- Mae cleifion yn cael eu cludo adref yn ddiogel heb orfod aros



Beth fydd yn wahanol?



- Rhagorir ar yr holl dargedau perfformiad ar amseroldeb.
- Gwell effeithlonrwydd – llai o archebion yr un diwrnod a llai o wasanaethau'n cael eu canslo
- Bydd yr holl drosglwyddiadau rhwng safleoedd yn cael eu darparu o fewn yr amser penodedig.
- Bydd cyfraddau boddhad cleifion wedi cynyddu.

Mae Gofal Ambiwylans yn cynnwys ein Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS), ein Gwasanaeth Gofal Brys a Gwasanaeth Trosglwyddo Rhwng Ysbytai a gomisiynwyd yn benodol i gefnogi model gofal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae gan y gwasanaethau hyn rôl hollbwysig o ran galluogi llif ar draws ein system iechyd a mynediad at ofal wedi'i gynllunio ledled Cymru i gleifion sy'n gymwys i gael cludiant. Mae gofal ambiwlans yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi **Nodau 5 a 6 y Chwe Nod**.



Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ar ein taith drawsnewidiol barhaus ym maes Gofal Ambiwylans; gan weithredu gwelliannau tra hefyd yn gweithio ar ein **gweledigaeth strategol** ar gyfer y dyfodol, rydym wedi ymgymryd â gwaith modelu yn ein meysydd gwasanaeth i ystyried sut y gallwn barhau i wneud y gorau o'n cynnig posibl i gefnogi'r system iechyd tra'n parhau i wella ansawdd a phrofiad y claf. Eleni, yr elfennau allweddol y byddwn yn canolbwyntio arnynt fydd **datblygu ein gweledigaeth yn barhaus**, a'r cynlluniau trawsnewid sylfaenol ar gyfer gofal ambiwlans, gan atgyfnerthu'r gwaith yr ydym wedi'i wneud ar gyfer NEPTS, Gofal Brys a'r uchelgeisiau ynghylch Trosglwyddo a Rhyddhau.

Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys



Gwasanaeth trafniadaeth hyblyg sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, sy'n sicrhau bod cleifion yn gallu cael mynediad at eu hapwyntiadau claf allanol ar amser a'u bod yn cael eu rhyddhau adref yn ddiogel.



Rydym yn parhau i adeiladu ar y gwaith cydweithredol trawsnewidiol gyda'n partneriaid byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau, gan gyflwyno **hwb gwell ac estynedig** i gefnogi ein **cleifion oncoleg**, gan adeiladu ar lwyddiant y ganolfan arenol gwell, gan ddarparu gwasanaeth gwell i gleifion. Byddwn hefyd yn parhau â'n gwaith ac yn datblygu cynllun gweithredu gwell ar y cyd ar gyfer cleifion oncoleg er mwyn galluogi gwelliannau pellach.

Rydym hefyd wedi ymrwmo i weithio ar y cyd â byrddau iechyd i ddatblygu rhai canlyniadau ac egwyddorion

mewn partneriaeth, gyda'r nod o wella cyfran yr **archebion a wneir ymlaen llaw** ar gyfer rhyddhau a throsglwyddiadau, a fydd yn galluogi gwasanaeth mwy effeithlon ac yn lleihau nifer yr achosion o **ganslo ar y diwrnod**.

Rydym hefyd wedi adolygu ein model **gwasanaeth cyswllt** ac wedi cynnig rhai newidiadau i'n comisiynwyr i alluogi mwy o gefnogaeth i'r llif systemau; yn 2024/5 ein nod yw cytuno a gweithredu model a ffefrir.


Byddwn hefyd yn ceisio gweithredu argymhellion o'r adolygiad o alw a galluedd ar gyfer NEPTS sy'n cynnwys **aidrefnu amserlenni** yn ein canolfan gyswllt NEPTS (canolfan NET) ac ar y ffordd.

Byddwn yn mynd ati'n frwd i ymgysylltu â chomisiynwyr ambiwlans a phartneriaid ehangach ynghylch sut i **reoli'r galw yn effeithiol** a chefnogi cleifion cymwys yng ngoleuni'r **meini prawf cymhwysedd** sy'n bodoli – yn yr hinsawdd ariannol bresennol, lle bydd yn rhaid inni wneud dewisiadau anodd, ni allwn fforddio dyrannu adnoddau mewn meysydd nad ydynt wedi'u comisiynu na'u hariannu na pharhau i ddarparu cludiant i gleifion anghymwys ar draul y cleifion hynny sy'n gymwys o dan feini prawf cymhwysedd Llywodraeth Cymru.

Rydym yn adolygu ac yn gwella ein systemau TGCh er mwyn gwneud y canlynol:

- cynnig gwahanol ffyrdd i'n cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol archebu, adolygu a diweddarau ceisiadau am gludiant,
- adolygu ac adeiladu ar y profion peilot sydd wedi bod ar waith eleni i integreiddio ein systemau TGCh â systemau gweinyddu cleifion y bwrdd iechyd i helpu i leihau achosion o ganslo rhybudd hwyr.

Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd



Byddwn yn parhau i archwilio cyfleoedd ar gyfer cerbydau allyriadau is. Bydd ein cymysgedd newidiol o fflyd Gofal Ambiwlans yn ceisio darparu cerbydau llai a fydd yn cefnogi hyn. Bydd gwaith pellach ynghylch lleihau nifer yr achosion o ganslo ar y diwrnod yn cyfrannu at ein hallyriadau carbon is.







Gwasanaeth Trosglwyddo a Rhyddhau Cymru Gyfan

Gwasanaeth cenedlaethol, sy'n cael ei ddatblygu o hyd, a fydd yn darparu adnodd pwrpasol i sicrhau y gellir cludo cleifion mewn modd amserol rhwng ysbytai, i gael mynediad at y lefel gywir o ofal ar gyfer eu hanghenion

Yn gynyddol, fel y disgrifir yn yr adran isod, mae byrddau iechyd yn datblygu modelau gwasanaeth newydd sy'n gweld gwasanaethau wedi'u canoli a mwy o angen am symud rhwng safleoedd ysbytai. Byddwn yn gweithio gyda'r Comisiynwyr i ddatblygu **gwasanaeth Trosglwyddo a Rhyddhau Cymru Gyfan**. Dechreuwyd ar y gwaith eleni, ond byddwn yn adeiladu ar y cysyniad a chanlyniadau'r modelu ac yn canolbwyntio'n benodol ar sut y gellir darparu'r gwasanaeth hwn mewn modd ariannol gynaliadwy.


Byddwn yn parhau i ddatblygu a chryfhau'r ffocws ar gyflwyno ac adrodd ar **brofiadau gwell i gleifion** ac ansawdd gwasanaethau gan gynnwys gweithredu Gwobr Safon Ansawdd Ambiwlans Cymru a fydd yn sicrhau bod gwasanaethau Ambiwlans ledled Cymru yn cael eu darparu yn y modd mwyaf diogel a chyson posibl.

Amcan IMTP	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3
 <p><i>Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys hyblyg, sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, gyda'r galluedd cywir yn ei le i ddiwallu'r galw</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Systemau newydd wedi'u rhoi ar waith i leihau'r nifer sy'n canslo ac yn archebu lle ar yr un diwrnod Ch4 • Ail-drefnu rhestrau dyletswydd ar draws NEPTS erbyn Ch4 • Cynllun gweithredu oncoleg gwell Ch4 • Adolygiad o'r Gwasanaethau Gofal Brys wedi'i weithredu erbyn Ch2 	<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i weithredu gostyngiadau mewn archebion yr un diwrnod • Parhau i weithredu'r cynllun oncoleg 	
 <p><i>Gwasanaeth trosglwyddo a rhyddhau pwrpasol ac amserol sy'n cefnogi Byrddau Iechyd gyda'u hagendâu trawsnewid</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoi protocolau CAD newydd ar waith gyfer trosglwyddiadau Ch1 • Uwchraddio system CAD ac archwilio integreiddio â system CAD EMS erbyn diwedd Ch4 • Model cenedlaethol H&D y cytunwyd arno gyda chomisiynwyr Ch4 • Cynllunio ar gyfer desg trawma mawr 24/7 (yn amodol ar gyllid) erbyn Ch4 	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu Hyfforddiant a Datblygiad (yn amodol ar gost ychwanegol) • Desg trawma mawr Cymru gyfan (yn amodol ar gyllid) • Gweithredu model desg glinigol ar gyfer integreiddio pob trosglwyddiad yn ddi-dor 	
 <p><i>Gweledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau gofal Ambiwlans sy'n cefnogi trawsnewid iechyd a gofal ehangach</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad strategol dan arweiniad y Comisiynydd wedi'i gwblhau Ch1 • Gweledigaeth fewnol ar gyfer gwasanaethau Gofal Ambiwlans wedi'i chytuno yn Ch2 		
 <p><i>Gwasanaeth diogel o ansawdd uchel gyda gwell profiad i gleifion</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella'r mecanweithiau sicrhau ansawdd ymhellach ar gyfer darparwyr allanol erbyn Ch4 	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad Fflyd NEPTS • Gwerthusiad profiad defnyddiwr (dolen i waith ar Ofal Iechyd Seiliedig ar Werth) 	<ul style="list-style-type: none"> • Achos Busnes dros Fflyd NEPTS

4.4 Sut y bydd cynlluniau strategol byrddau iechyd yn effeithio arnom ni?

Mae ein gwasanaethau'n cael eu cydnabod fel ffactor allweddol sy'n galluogi newidiadau trawsnewidiol ar draws y system i alluogi mynediad at wasanaethau cynaliadwy ac arbenigol ledled y wlad; gan gydweithio i sicrhau llwybrau diogel ac effeithiol i mewn i wasanaethau tra hefyd yn cynllunio ar gyfer y galw ychwanegol am drosglwyddo, dychwelyd a rhyddhau lle bo angen. Rydym yn parhau i weithio ar y cyd ac yn rhagweithiol gyda byrddau iechyd a Rhwydweithiau Clinigol i gefnogi **newidiadau strategol, trawsnewidiol i wasanaethau** (cenedlaethol, rhanbarthol a lleol) ledled Cymru i sicrhau'r canlyniadau a'r profiad gorau posibl i bobl Cymru.

Mae angen i ni aros yn barod i newid ond yn realistig yng nghyd-destun y galw ar ein gwasanaeth a'r galluedd i gyflawni newid yn gyflym. Byddwn yn ystyried yr ystod lawn o newidiadau strategol i wasanaethau yng Nghymru wrth i ni ddatblygu opsiynau ar gyfer gwasanaeth Trosglwyddo a Rhyddhau mewn cydweithrediad â byrddau iechyd.



Mae'r map uchod yn rhoi trosolwg o'r prif raglenni gwaith newid gwasanaeth lle'r ydym yn cydweithio â sefydliadau partner. Er mwyn cynllunio'n effeithiol, mae'n bwysig cael cyfathrebu amserol ac ystyrlon, a byddwn yn **canolbwyntio adnoddau i gydgyssylltu ein rôl mewn cynllunio lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar draws ardaloedd byrddau iechyd a rhwydweithiau'r GIG.**

5. Ein pobl

Amcan Strategol 2 – Galuogi ein pobl i fod y gorau y gallant fod

Sut olwg fydd ar dda i'n pobl yn 2027?

- Diwylliant: Bydd ein pobl yn profi WAST fel lle eithriadol i weithio, gwirfoddoli, datblygu a thyfu
- Galluedd: bydd ein pobl yn croesawu newid, yn fedrus iawn, yn perthyn i broffesiwn ac yn cael mynediad at lwybrau datblygu a gyrfa.
- Galluogrwydd: byddwn yn gweld pobl ac arweinwyr tosturiol, cydweithredol a dewr, yn elwa ar raglenni datblygu pwrpasol, gan ddangos meddylfryd twf



Beth fydd yn wahanol?



- Bydd absenoldeb salwch o dan 6%
- Bydd cyfraddau trosiant wedi gostwng.
- Bydd y sgorau ymgysylltu ymhlith yr uchaf yng Nghymru.
- Bydd staff yn cael sgysiau rheolaidd gyda'u rheolwyr.
- Bydd mwy o gydweithwyr yn rhan o'n rhwydweithiau.

5.1 Proffil ein Gweithlu

Er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau o ran trawsnewid gwasanaethau, mae'n **hollbwysig** bod gennym y bobl iawn yn y swyddi cywir ar yr amser iawn a rhaid inni eu galluogi i fod y gorau y gallant fod.

Byddwn yn cyhoeddi ein **Cynllun Gweithlu Strategol** yn fuan, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â chydweithwyr ar draws y sefydliad. Mae'r ddogfen ddeinamig hon yn rhoi'r fframwaith ar gyfer blaenoriaethau cynllunio'r gweithlu ar gyfer y pum mlynedd nesaf i gefnogi dyheadau'r sefydliad. Yn benodol, bydd yn mynd i'r afael â'r canlynol: cymysgedd sgiliau gweithlu'r dyfodol; y rôl ar gyfer ymarfer uwch a gofynion addysg canlyniadol; sut rydym yn darparu ar gyfer gyrfaoedd portffolio a datblygu modelau cylchdro; a sut y bydd y defnydd o adnoddau digidol yn datblygu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf ym mywydau gwaith pobl.

Mae ein Grŵp Cynllunio Technegol Integredig yn dod â chydweithwyr ar draws y sefydliad at ei gilydd i weithio ar y darlun cyfannol gan gynnwys sgiliau clinigol, addysg a hyfforddiant, cynllunio, timau fflyd ac ystadau i sicrhau bod y sefydliad yn mabwysiadu dull cydgysylltiedig o gynllunio'r defnydd o'i adnoddau allweddol. Mae hyn yn cefnogi dull traws-swyddogaethol o ddatblygu a defnyddio ein gweithlu i wneud y mwyaf o'u heffaith a'u cynhyrchiant.

Heriau'r Gweithlu

Mae Atodiad 1 yn nodi rhai o heriau allweddol ein gweithlu. Maes allweddol sy'n cael effaith uniongyrchol ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yw **absenoldeb salwch**. Yn dilyn rhai gwelliannau sylweddol ers 2021/22, rydym wedi gweld cynnydd bach mewn absenoldeb salwch dros yr ychydig fisoedd diwethaf, sydd fwyaf tebygol wedi'i briodoli i amrywiadau tymhorol. Mae ymdrech ar y cyd wedi parhau i gefnogi a rheoli cydweithwyr yn ôl i waith ochr yn ochr â dull rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar newid diwylliant a chymorth.

WORKFORCE PROFILE



Mae gennym ni swyddi anodd eu llenwi a **heriau recriwtio** mewn rhai ardaloedd **gwledig** ar gyfer swyddi ar bob lefel. Byddwn yn gweithio gyda phrifysgolion i sefydlu disgwyliaidau realistig ar gyfer parafeddygon sydd newydd gymhwyso o ran lleoliadau a byddwn yn adolygu'r hyn y gellir ei wneud i ddarparu cymorth a chymhelliant ar gyfer yr ardaloedd gwledig hyn.

Cynllun Gwella System y Gweithlu a Rhaglenni'r Dyfodol 2024 – 2027

Her arall dros y tair blynedd nesaf yw **Rhaglen Atebion i Weithlu GIG yn y Dyfodol**, sef un o'r rhaglenni trawsnewid digidol mwyaf y bydd staff GIG Cymru yn ei brofi am beth amser a bydd yn rhedeg trwy gydol tymor tair blynedd y Cynllun Tymor Canolig Integredig hwn a thu hwnt. Bydd y rhaglen trawsnewid genedlaethol hon yn darparu system gweithlu gadarn, reddfol, ystywyth sy'n diwallu anghenion esblygol GIG Cymru.

5.2 Pobl a Diwylliant

Er mwyn cyd-fynd ag uchelgais ein Cynllun Pobl a Diwylliant o sefydliad cynhwysol, proffesiynol a seicolegol ddiogel, mae amcanion ein Cynllun Tymor Canolig Integredig yn dod o dan ein tair Elfen, sef **Diwylliant, Galluedd a Gallu**. Rydym hefyd yn parhau i nodi tri **Ymrwymiad** clir y mae ein pobl wedi dweud wrthym eu bod yn bwysig o ran eu profiad yn y gweithle.



Diwylliant

Mae'r nodau o dan y thema Diwylliant yn driphlyg. Yn

gyntaf, ein nod yw **gwella a chryfhau ein gallu mewnol i ysgogi newid diwylliant**, gyda phwyslais arbennig ar ddatblygu a manteisio ymhellach ar rôl yr Hyrwyddwr Diwylliant, Asiantau Newid, a'n rhwydweithiau staff. Bydd yr unigolion hyn yn chwarae rhan ganolog wrth hyrwyddo a chefnogi ein trawsnewid diwylliannol parhaus.

Yn ail, mae ein ffocws yn ymestyn i **ddatblygu ac ymhelaethu ar lais gweithwyr**, ar gyfer unigolion ac ar y cyd trwy bartneriaeth gymdeithasol, elfen hanfodol ar gyfer cynyddu ymgysylltiad cyffredinol gweithwyr. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn defnyddio offer amrywiol megis diagnosteg tîm sydd wedi'i ymgorffori yn y pecyn cymorth gwirio iechyd diwylliant, arolygon Hive rheolaidd, Sioeau Teithiol y Prif Swyddog Gweithredol, mentrau Rhyddid i Leisio Barn, Rhwydwaith Lleisiau, rhaglenni cydnabod gweithwyr, a chraffu rhagweithiol ar adborth cyfweliadau ymadael. Yn ogystal, byddwn yn parhau i flaenoriaethu creu gweithle sy'n ddiogel ac yn barchus trwy fynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â Diogelwch Rhywiol a Chasineb at fenywod.

Yn drydydd, rydym wedi ymrwymo i ymgorffori **arferion tosturiol** yn ein holl weithgareddau sy'n canolbwyntio ar bobl. Mae hyn yn cynnwys cynllun cynhwysfawr gyda phob rheolwr yn cael hyfforddiant

ychwanegol, ynghyd ag arweiniad a deunyddiau cymorth. Mae adolygiadau achos a sesiynau hyfforddi yn elfennau annatod o'r dull hwn, gan sicrhau bod ein harweinwyr yn ymgorffori ac yn hyrwyddo arferion tosturiol yn gyson yn eu rhyngweithiadau.

Galluedd

O dan y thema Galluedd, mae ein hamcanion Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi'u hanelu at gyflawni **ein Cynllun Gweithlu Strategol**, dogfen ddeinamig sy'n hanfodol ar gyfer alinio gofynion y gweithlu â'r trawsnewid busnes parhaus.

Ar yr un pryd, rydym yn parhau yn ein hymdrechion i wreiddio **diwylliant o reoli presenoldeb yn gadarnhaol** trwy ymyriadau wedi'u targedu, cefnogi cydweithwyr i aros yn y gweithlu, a rhoi ein Cynllun Iechyd a Lles ar waith yn weithredol. Mae'r Cynllun Iechyd a Lles hefyd yn cydnabod effaith sylweddol profiad gweithwyr a'r dystiolaeth gynyddol na all unrhyw lefel o gymorth lles personol wneud iawn am brofiad negyddol.

Ein ffocws parhaus ar brofiad yn y gwaith a galluogi ein galluedd i fod yn gallu darparu patrymau gwaith newydd gan gynnwys opsiynau gweithio hyblyg a gwrando ar ein pobl wrth i'w profiadau allanol a phersonol newid y cymorth sydd ei angen arnynt i barhau i fod y gorau yn y gwaith. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'n gwirfoddolwyr ac rydym am sicrhau bod eu profiad a'u cefnogaeth yn adlewyrchu ein gwerthfawrogiad o'u cefnogaeth ragorol.

Yn ogystal, rydym yn parhau i **ganolbwyntio ar 'gael y pethau sylfaenol yn iawn'**, sy'n cynnwys paratoi ar gyfer gweithredu'r system sy'n amnewid y system ESR (Cofnod Staff Electronig) a gwella ein systemau a'n prosesau ar gyfer gwell effeithlonrwydd. Rydym hefyd wedi ymrwmo i barhau â gwaith i **weithredu taflenni amser electronig**, a fydd yn dod â nifer o arbedion effeithlonrwydd yn ei sgil. Agwedd allweddol ar ein hymdrechion i feithrin galluedd yw cyhoeddi Cynllun Iechyd a Lles ar ei newydd wedd ar gyfer yr Ymddiriedolaeth, y Rhaglen Beilot Gwiriad Iechyd a Gwyliadwriaeth Iechyd, gan ddarparu mynediad diagnostig i staff a hwyluso gwerthusiad parhaus o'n mentrau iechyd.

Galluogrwydd

Mae ein hamcanion yn canolbwyntio ar ddatblygu **galluogrwydd arweinwyr a rheolwyr** i arwain a rheoli newid tra'n atgyfnerthu'r diwylliant sefydliadol esblygol a amlinellir yn y Cynllun Pobl a Diwylliant. Mae mentrau fel y Rhaglen Hanfodion Rheoli, Pecyn Cymorth Gwiriad Iechyd Diwylliant Tîm, sgiliau hyfforddi a mentora i alluogi rheolwyr i hwyluso sgysiau am faterion gan gynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, 'Ein Ffordd WAST', yn gonglfaen i'r amcan hwn.

Rydym yn ymroddedig i **dyfu a meithrin ein galluogrwydd i arwain a rheoli ar gyfer y dyfodol**. Mae darparu llwybr datblygu gyrfa ar gyfer arweinwyr a rheolwyr o fewn yr Ymddiriedolaeth yn dangos ein hymrwymiad i dyfu arweinwyr y dyfodol trwy adeiladu llif mewnlol o gydweithwyr dawnus a medrus sydd wedi ymrwmo i newid a thrawsnewid diwylliannol. Mae'n hanfodol bod ein harweinwyr yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i hwyluso sgysiau am nodweddion gwarchoddedig a materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Bydd ffocws dwysach ar ymdrechion hyfforddi a mentora i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac ymddygiad amhriodol yn brydlon gan sicrhau cefnogaeth barhaus ar gyfer anghenion tîm, cryfhau perthnasoedd, a rheoli materion yn gynnar.

Rydym yn deall pwysigrwydd **atgyfnerthu proffesiynau a datblygiad proffesiynol**, ar draws y gweithlu cyfan. Mae cwblhau'r Cynllun Datblygu Pobl yn rhan hanfodol o'r amcan hwn; gan ddarparu crynodeb clir o

deuluoedd swyddi, llwybrau dilyniant a'r cymorth sydd ar gael trwy gydol gyrfaoedd i feithrin talent a llywio'r cyfleoedd sydd ar gael.

Er mwyn **creu amgylchedd sy'n ffafriol i dwf a lles**, byddwn yn pwysleisio sgysiau effeithiol a pharhaus, 'sgysiau dal i fyny', sy'n cyfrannu at berfformiad a datblygiad gwell gan unigolion a thimau.

Drwy gydol yr ymdrechion hyn, mae llinyn aur cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhedeg, sy'n sail i bob agwedd ar ein gweithrediadau. Mae'r ymrwymiad hwn yn cynnwys cyhoeddi a **chyflawni ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol**, sicrhau ymlyniad at ofynion statudol, a gwneud cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn gonglfaen i'n diwylliant sefydliadol.


Yn unol â'n hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, byddwn yn parhau i **fonitro cydymffurfedd yn weithredol a sicrhau'r gweithdrefnau adrodd cywir**, gan gadw at ddyletswydd y sector cyhoeddus a gofynion statudol perthnasol. Fel rhan o'n dull cynhwysfawr, rydym yn blaenoriaethu cyhoeddi adroddiadau a chynlluniau allweddol i gyfleu ein cynnydd a'n camau gweithredu ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn dryloyw.

Trwy ein profiad gwaith gyda chymunedau, rydym yn sylwi bod profiadau gwael cleifion yn ymwneud â'r rhai sy'n dod o dan nodweddion penodol y Ddeddf Cydraddoldeb gydag achosion lle nad ydym wedi gwneud addasiadau rhesymol nac wedi asesu'r risgiau penodol i'r cleifion hyn. Mae hyn yn arbennig o wir yn rhai o'n gwasanaethau Gofal Ambiwylans ac mae angen i ni sicrhau bod ein gwaith o amgylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn gyfannol ac yn nodi'r anghenion unigol i'n defnyddwyr gwasanaeth yn ogystal â'n pobl.

Yn sail i'n hymrwymiad cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mae camau gweithredu penodol sy'n cydfynd ag Amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae'r fframwaith cynhwysfawr hwn yn sicrhau bod ein mentrau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant nid yn unig yn cael eu monitro ond hefyd yn cael eu gweithredu'n strategol, gan gyfrannu at weithle sy'n amrywiol, yn gynhwysol, ac yn ymroddedig i ddileu gwahaniaethu.

Ymrwymadau i'n pobl


Yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2023-26, gwnaethom ymrwymiad clir i'n pobl i fynd i'r afael â thri mater allweddol a ddeilliodd o adborth ganddynt yn ystod cyfleoedd ymgysylltu. O'r adborth y mae staff a gwirfoddolwyr wedi'i roi i ni eto eleni rydym yn gwybod bod y rhain yn parhau i fod yr un mor bwysig iddynt ac mae gennym ragor o waith i'w wneud. Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud gwell cynnydd ar hyn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.



- **Sifftiau'n gor-redeg:** gwnaethom gynnydd yn 2023/24 mewn rhai ardaloedd yng Nghymru drwy roi 'mannau dal' ar waith sy'n galluogi staff i gymryd egwyl a dod â'u sifft i ben tra bod cleifion yn derbyn gofal gan staff ambiwlans penodedig mewn ardaloedd clinigol y tu allan i'r Adran Achosion Brys neu'n agos ati. Er nad yw'n sicr y gallwn gynnal y meysydd hyn am gyfnod amhenodol, rydym yn ceisio eu gweithredu mewn safleoedd eraill lle mae oedi parhaus wrth drosglwyddo a byddwn yn archwilio cyfleoedd eraill i gefnogi staff ar ddiwedd sifft i gynnal cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith.

- **Profiad digidol:** rydym wedi cymryd camau breision wrth ddatblygu offer a hyfforddiant i gefnogi llythrennedd digidol ac awtomeiddio prosesau. Fodd bynnag, mae angen i ni fynd ymhellach i gynnwys gweithredu datrysiad mewngofnodi symlach ar draws ein cyfrifiaduron personol a'n iPads, yn ogystal â darparu datrysiadau awtomataidd i'n cydweithwyr i leihau baich tasgau llaw lle bo modd.
- **Gweithio hyblyg:** bu cynnydd o ran datblygu diwylliant lle mae gweithio hyblyg yn peri llai o rwystrau, yn enwedig i staff rheng flaen. Yn 2024/25 bydd gofynion cyfreithiol ychwanegol ar yr Ymddiriedolaeth i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau i weithio hyblyg a bydd y rhaglen waith hon yn parhau.

Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd




Rydym bellach wedi sefydlu model gweithio ystwyth sy'n cefnogi llai o allyriadau cymudo. Byddwn yn sicrhau bod ein hystâd yn addas i'r diben er mwyn darparu manau hyblyg, croesawgar a chydweithredol i'n pobl. Byddwn yn parhau i groesawu cyfleoedd i roi cysylltiadau agosach i'n pobl â byd natur i gefnogi eu lles.

Amcan IMTP	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3
Diwylliant	<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ch1 Gwarcheidwaid Penodedig wedi'u neilltuo Ch1 Ehangu hyrwyddwyr diwylliant, newid aelodaeth cymuned a rhwydwaith erbyn Ch4 Asesu effaith y pecyn cymorth diwylliannol erbyn Ch4 Adolygu hyfforddiant Cynghreiriaid a Gwylwyr yn Ch3 Nodi a gweithredu mesurau i hyrwyddo'r cynnig i gyflogaion erbyn Ch3 	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu ymhellach a chyflwyno arferion tosturiol, cydraddoldeb, cynghreiriaid a hyfforddiant gwylwyr Parhau i ehangu a datblygu ein rhwydweithiau Gwerthuso effaith y cynnig i weithwyr ar recriwtio Ceisio adborth ar draws y sefydliad ar lefelau diogelwch seicolegol 	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i adeiladu ein diwylliant dymunol Adolygu a gwerthuso ymyriadau i lywio cynlluniau ar gyfer y dyfodol Adnewyddu ein Cynllun Pobl a Diwylliant
Galluedd	<ul style="list-style-type: none"> Cynllun Iechyd a Lles wedi'i gwblhau Ch4 Cynllun Gweithlu Strategol Cymeradwy Ch1 Gweithredu cynllun gwaith cadw erbyn Ch4 Cefnogi optimeiddio ESR a rhaglenni amnewid - parhaus Gweithredu taffenni amser electronig erbyn diwedd Ch4 Adnewyddu a chyflwyno rhaglen rheoli presenoldeb - parhaus Cychwynnwyd mentrau cefnogi gofawr Ch1 	<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu Cynllun Iechyd a Lles Cyflawni Cynllun Gweithlu Strategol Blwyddyn 2 Cefnogaeth WAST i ddarparu fabwysiadwyr cynnar system amnewid ESR Parhau i sefydlu llwybr cymorth i ofalwyr o fewn y sefydliad 	<ul style="list-style-type: none"> Cynllun cyflawni Blwyddyn 2 ar gyfer y Cynllun Iechyd a Lles Cyflwyno ac adolygu Cynllun Gweithlu Strategol Blwyddyn 3 Parodwrydd ar gyfer trosglwyddo i system amnewid ESR Parhau i sefydlu llwybr cymorth i ofalwyr o fewn y sefydliad
Galluogrwydd	<ul style="list-style-type: none"> Hyfforddi a mentora arweinwyr a rheolwyr yn canolbwyntio ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant - parhaus Gweithredu Hanfodion Rheoli Pobl erbyn Ch4 Cwblhau Cynllun Datblygu Pobl erbyn Ch4 Cyflwyno 'gwiriadau' parhaus i gefnogi PADR furfiol erbyn Ch4 	<ul style="list-style-type: none"> Hyfforddiant gloymi mewn cynllunio'r gweithlu i gefnogi adolygiadau o'r gweithlu, hyfforddiant a chynlluniau olyniaeth Mae agweddau arweinyddiaeth y cynllun Cydraddoldeb Strategol yn parhau i gael eu darparu 	<ul style="list-style-type: none"> Ehangu cyfleoedd i gydweithwyr groesawu a datblygu o fewn eu proffesiwn a dangos y rhinweddau a'r safonau proffesiynol hynny ym mhopath a wnânt
<p>Ymrwymadau: Datblygu gweithio hyblyg ar draws y sefydliad Ymrwymiad i leihau sifftiau'n gor-reddeg, trwy weithio mewn partneriaeth ar draws GIG Cymru a gyda phartneriaid Undebau Llafur a'n pobl Gwella profiad digidol ein pobl trwy gynllun digidol wedi'i adnewyddu</p>			

5.3 Y Gymraeg

Mae arweinyddiaeth yn sbardun allweddol ar gyfer gweithredu'r cynllun **Mwy na geiriau** yn llwyddiannus. Bydd angen arweinyddiaeth gref arnom i danategu'r camau gweithredu i drawsnewid y ddarpariaeth o'r Gymraeg ar gyfer y dyfodol, i ysgogi momentwm ar gyfer newid a chreu diwylliant lle mae pobl yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd yn y gwaith. Mae hyn yn fwy na chydymffurfio â gofynion statudol yn unig, dylai fod yn rhywbeth cynhenid yn yr hyn a wnawn wrth **weithio tuag at y 'Cynnig Rhagweithiol'**. Yn syml, mae Cynnig Rhagweithiol yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb orfod gofyn amdano a chael y Gymraeg mor weladwy â'r Saesneg.



Yn ystod y flwyddyn ariannol hon fe wnaethom wella ein cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg a'n darpariaeth o'r Cynnig Rhagweithiol trwy **ganoli ein gwasanaeth cyfieithu** drwy recriwtio Cyfieithydd Cymraeg. Mae hyn wedi cynyddu ein gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'n defnyddwyr gwasanaeth ac i'n staff. Rhoddodd ein **Gwasanaeth 111** gynllun gwella ar waith a oedd yn cynnwys ffyrdd newydd o weithio er mwyn cynyddu ei allu i ateb galwadau gan ein defnyddwyr gwasanaeth yn Gymraeg. Cyflwynwyd **cwrs ymwybyddiaeth iaith Gymraeg gorfodol** newydd i staff a byddwn yn ceisio hyrwyddo'r cwrs ymhellach drwy'r cyfnod Cynllun Tymor Canolig Integredig hwn er mwyn cynyddu cydymffurfedd.



Ym Mlwyddyn 1 byddwn yn ceisio gosod **gwaelodlin ar gyfer cydymffurfedd** â safonau'r Gymraeg a chyflwyno a gweithredu **Polisi iaith Gymraeg** newydd ar gyfer hybu a hwyluso'r Gymraeg. Fel rhan o'n hymrwymiad i'r Cynllun Gweithredu Mwy na Geiriau byddwn yn ceisio cwblhau ein Cynllun Gweithlu Strategol sy'n cynnwys ffrwd waith iaith Gymraeg lle bydd gwaith yn mynd rhagddo trwy **ddadansoddiad o'r bwlch sgiliau iaith Gymraeg** wedi'i ddilyn gan fentrau hyfforddi a datblygu a strategaethau recriwtio.

Byddwn yn parhau i sicrhau cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg, sy'n cael eu hadrodd a'u monitro'n rheolaidd i'r Bwrdd a thrwy'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Cadeirydd trwy eu hatebolrwydd i'r Gweinidog.

Amcan IMTP	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3
<i>Cryfhau cydymffurfedd â'r Gymraeg drwy arweinyddiaeth gref, gan alluogi'r Gymraeg i ffynnu</i>	<ul style="list-style-type: none"> Polisi iaith Gymraeg wedi'i gymeradwyo a'i gyfathrebu yn Ch1 Sylfaen safonau'r Gymraeg wedi'i sefydlu yn Ch2 Pecyn cymorth ar gyfer uwch arweinwyr a'r Bwrdd wedi'i ddatblygu erbyn Ch4 Sefydlwyd grŵp cynghori'r Gymraeg yn Ch2 	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu strategaeth recriwtio i ddenu a gwerthuso ymgeiswyr ar sail eu hyfedredd yn y Gymraeg Cyflwyno lefel 'cwrteisi' sylfaenol o sgiliau iaith Gymraeg 	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu ein blaenoriaethau ar gyfer y Gymraeg yn unol ag adnewyddiad o'r cynllun cydymffurfio

6. Isadeiledd – cyfalaf, fflyd ac ystadau

Amcan Strategol 3 – Bod ar flaen y gad o ran arloesi a thechnoleg

Mae ein **hystadau a'n fflyd** yn allweddol i'r uchelgais i ddyluniad ac isadeiledd y sefydliad fod ar flaen y gad o ran arloesi a thechnoleg. Gan adeiladu ar gyfnod o dwf yn 2022/23, mae'r flwyddyn 2023/24 wedi gweld nifer o gynlluniau i wella'r ystâd yn mynd rhagddynt, tra'n cael gwared ar rai o'n hystâd sydd â'r cyflwr gwaethaf. Mae hyn yn sicrhau y gallwn weithio tuag at gael yr adeiladau a'r cerbydau cywir yn y lle iawn i'n staff ddarparu'r gofal gorau a mwyaf diogel ledled Cymru.

Cefnogir ein ffocws cynyddol ar ddechrau llwybr y claf gan gynydd mewn prosiectau i adleoli staff o Fryn Tirion a chynlluniau cyflym ar gyfer ôl troed diwygiedig ar gyfer Canolfan Gyswllt Clinigol yn Llangynnwr. Rydym wedi cefnogi ein Timau Fflyd a Chomisiynu i gryfhau eu presenoldeb rhanbarthol trwy agor Gweithdy a Chanolfan Gomisiynu'r Ddeddwyrain ym Merthyr Tudful a chefnogi gweithrediadau EMS rheng flaen trwy adleoli Gorsaf Ambiwllans Cwmbrân i Dŷ Bannau, a chyflymu cynlluniau ymhellach ar gyfer Gorsaf Ambiwllans yn Nolgellau. Mae 2023/24 hefyd wedi ein gweld yn cael gwared ar ystadau gwael ac aneffeithlon yn Blackweir yng Nghaerdydd, a Chefn Coed yn Abertawe.



Mae **Rhaglen Amlinellol Strategol Ystadau a Gweithdrefn Gweithredu Safonol Fflyd** (a adnewyddwyd yn 2021) wedi'u cymeradwyo'n llawn gan Lywodraeth Cymru gan ein galluogi i weithio tuag at gynhyrchu cyfres o achosion busnes i gyflawni'r weledigaeth hon. Rydym yn parhau i alinio ag uchelgeisiau strategol y cynlluniau hyn, ond mae cyfle bellach i adnewyddu'r cynlluniau hyn. Bydd angen i ni ymateb i'n prif heriau a risgiau i sicrhau bod gennym yr ystâd gywir a'r proffil fflyd cywir yn y lle iawn i gefnogi unrhyw dwf arfaethedig mewn gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'n cynnig newydd o wasanaethau.


Wrth adnewyddu'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol, mae'r cysyniad "**Paratoi**" yn parhau i fod ar flaen y gad o ran datblygu achos busnes safle gweithredol ac mae timau gweithredol yn rhan hanfodol o sicrhau bod ein hadeiladau yn addas ar gyfer y dyfodol.

Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd



Mae gwelliannau o fewn ein hystâd a'n fflyd yn ganolog i'n huchelgais o leihau allyriadau carbon. Byddwn yn cyflwyno amrywiaeth o gynlluniau pwrpasol ar draws ein hystâd drwy gyllid LIC (EFAB) ac yn ymgorffori elfennau datgarboneiddio yn ein holl welliannau i'r ystâd.

Yn 2024/45 byddwn yn cwblhau'r broses o adleoli staff o **Fryn Tirion i Dŷ Elwy**, gan ddarparu cyfleuster modern ac addas i'r diben sy'n dod â Chydlynu EMS, Gofal Ambiwllans, Adnoddau ac 111 i'r un adeilad. Byddwn yn cwblhau gwaith ar orsaf ambiwlans newydd yn **Nolgellau**, a byddwn yn datblygu ein darpariaeth o ôl troed newydd o fewn **Canolfan Gyswllt Clinigol Llangynnwr** (a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau yn 2025/26).



Rydym hefyd yn parhau i ystyried yr effeithiau ar **arferion gweithio ystwyth** ar gyfer ein staff corfforaethol ac mae gennym dri gofod swyddfa modern addas i'r diben yng Nghwmbrân, Llanelwy ac Abertawe y gall ein holl staff eu defnyddio ar sail hyblyg a chydweithredol i sicrhau ein bod yn darparu cyfleusterau da i staff gyfarfod, a gweithio ynddynt, yn ôl y gofyn, tra'n sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o asedau'r Ymddiriedolaeth a meddiannaeth adeiladau.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r gwaith o flaenoriaethu cynlluniau yn erbyn y dyraniad Cyfalaf Dewisol 24/25 sy'n weddill yn mynd rhagddo, ac mae nifer o gynlluniau'n cael eu hystyried i fynd i'r afael â heriau e.e. gwelliannau i'r ystâd yng Ngorsaf Ambiwllans Trefynwy a Gweithdai Fflyd Bangor, ac amnewid iPads trwy gydol eu hoes asedau.

Mae **fflyd fodern ac effeithlon** yn hanfodol i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'n cleifion ac amgylchedd cyfforddus i'n pobl weithio ynddo. Yng ngoleuni cyllid cyfyngedig yn 2023/24, rydym wedi cyflwyno'r **Achos Cyfiawnhad Busnes** i Lywodraeth Cymru ar gyfer cynllun amnewid cerbydau 2024/25 ac, yn amodol ar gymeradwyaeth, dros y 12 mis nesaf byddwn yn adnewyddu 157 o gerbydau ar draws ein fflyd gan gynnwys EMS a Gofal Ambiwylans. Fel rhan o'n hymrwymiad i leihau ein hallyriadau carbon a cherbydau, rydym wedi canolbwyntio caffael ar gerbydau llai a mwy effeithlon. Ar gyfer ein Cerbydau Ymateb yn Seiliedig ar Gar, byddwn yn ceisio darparu datrysiad cerbydau trydan llawn, sydd wedi'i ategu gan seilwaith gwefru priodol.



Ar y cyd â'r agenda datgarboneiddio ac er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaeth LIC ar yr **Economi Sylfaenol**, mae'r sefydliad yn parhau â'i waith gyda chydweithwyr Caffael wrth i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ddwyn ynghyd fetrigau sy'n ein galluogi i **nodi a yw'r bunt Gymreig yn cael ei gwario yng Nghymru**, a chyn dyfarnu contract allweddol i gyflenwr, amlygu a yw'r cyflenwr yn dod o Gymru ac yn sgorio'n uchel ar sgôr cynaliadwyedd sy'n cwmpasu meysydd megis systemau rheoli amgylchedd, caffael deunyddiau'n lleol, ailgylchu a gwaredu offer yn briodol mewn ffordd nad yw'n effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd.

Amcan IMTP	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3
<i>Yr adeiladau cywir yn y lle iawn, gan alluogi ein staff i ddarparu'r gofal gorau a mwyaf diogel ledled Cymru</i>	<ul style="list-style-type: none"> Cwblhau Gorsaf Ambiwylans Dolgellau Cwblhau prosiect adleoli Bryn Tirion Adnewyddu Gweithdrefn Gweithredu Safonol Ystadau Achosion busnes ar gyfer Abertawe, Casnewydd, Llanelli a Llandrindod Gwaith cwmpasu ac achosion busnes ar gyfer gweithdy Fflyd Bangor, Thanet House a Threfynwy 	<ul style="list-style-type: none"> Blaenoriaethau cyfalaf dewisol Blwyddyn 2 Ceisiadau AWC – cyflwyno achosion busnes llwyddiannus a datblygu rownd nesaf o flaenoriaethau achos busnes Cyflwyno ôl troed newydd Canolfan Gyswilt Clinigol Llangynnwr 	<ul style="list-style-type: none"> Blaenoriaethu cyfalaf dewisol Blwyddyn 3 Ceisiadau AWC – cyflwyno achosion busnes llwyddiannus a datblygu rownd nesaf o flaenoriaethau achos busnes
<i>Y fflyd iawn yn y lle iawn, gan alluogi ein staff i ddarparu'r gofal gorau a mwyaf diogel ledled Cymru</i>	<ul style="list-style-type: none"> Cyflwyno Rhaglen Amnewid Cerbydau 2024/5 Ystyried yr amserlen a'r broses ar gyfer adnewyddu Gweithdrefn Gweithredu Safonol y Fflyd (AWC) Amnewid fflyd BJC ar gyfer 2025/26 (AWC) 	<ul style="list-style-type: none"> BJC a rhaglen amnewid fflyd (AWC) 	<ul style="list-style-type: none"> BJC a rhaglen amnewid fflyd (AWC)

7. Ein map trywydd digidol

Amcan Strategol 3 – Bod ar flaen y gad o ran arloesi a thechnoleg

Sut olwg fydd ar dda ar gyfer digidol yn 2027?

- Rydym yn defnyddio systemau blaengar i sicrhau seiberddiogelwch anhreiddiadwy.
- Mae atebion digidol yn cael eu hintegreiddio i fywyd bob dydd, gan roi gwell effeithlonrwydd a phrofiad.
- Rydym yn arwain mewn arloesi gyda thechnolegau o'r radd flaenaf sy'n cefnogi nodau strategol.
- Rydym yn croesawu strategaeth ddigidol yn gyntaf ar gyfer trawsnewid, gan gynnal ystwythder ac effeithlonrwydd sy'n canolbwyntio ar y claf.

Beth fydd yn wahanol?

- Dim ymosodiadau seiber llwyddiannus
- Llai o alwadau i ddesg gymorth a chyfradd datrysiad cyntaf gwell.
- Cynnydd yn nifer y prosiectau archwilio technoleg.
- Nifer cynyddol o ddefnyddwyr yn hyderus wrth gyrchu, defnyddio a dehongli data
- Lefelau uwch o foddhad cleifion a staff a mabwysiadu ein datrysiadau digidol



Yr agwedd arall ar 'fod ar flaen y gad o ran arloesi a thechnoleg' yw **sut rydym yn datblygu ein cynigion digidol** i gefnogi ein darpariaeth gwasanaeth a'n huchelgeisiau strategol hirdymor. Mae angen i'r cynnig digidol hwn gadw i fyny ag anghenion ein cleifion a'n pobl heddiw ond hefyd â datblygiad ein model gwasanaeth ar gyfer y dyfodol. Mae ein strategaeth hirdymor 'Sicrhau Rhagoriaeth', yn nodi sut y gallem fabwysiadu technolegau digidol sy'n darparu hygyrchedd gwell a di-dor i'n cleifion, cefnogi ein pobl i ddarparu gwasanaethau amserol, diogel ac effeithiol ac i ddefnyddio data i lywio sut y gall ein system gweithredu'n optimaidd ar gyfer anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Mae **cynnydd cyflym technoleg** yn cyflwyno cyfleoedd a heriau. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â heriau sylfaenol gwasanaeth gofal brys a brys 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, sy'n dibynnu'n helaeth ar ddata a thechnoleg, tra'n cydbwyso'r angen i ddatblygu a mabwysiadu technolegau newydd fel roboteg a deallusrwydd artifisial.

Rydym hefyd yn wynebu **heriau gweithlu**. Mewn marchnad gyflogaeth gystadleuol ar gyfer arbenigwyr digidol, mae angen inni sicrhau y gallwn ddatblygu galluogrwydd a galluedd ein timau digidol i sicrhau bod ein gwasanaethau hanfodol yn cael eu cynnal ochr yn ochr â'r cyfleoedd i fod yn arloeswyr ym maes gofal iechyd digidol yng Nghymru.


Nid ydym yn dechrau o dudalen wag. Ym mis Tachwedd 2020 cyhoeddwyd ein **strategaeth ddigidol** gyntaf. Er bod yr 'Egwyddorion' a'r 'Cenhadaethau' digidol a nodir yn y strategaeth yn parhau i fod yn bwysig, rydym wedi dechrau adnewyddu ac ail-fframio ein cynllun digidol yng ngoleuni'r heriau sy'n ein hwynebu a'r cyfleoedd sydd ar gael i ni.

Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd

Rydym yn parhau ar ein taith i leihau ein defnydd o bapur yn sylweddol a digideiddio ein cofnodion. Rydym yn gweithio i gysylltu ein systemau â'i gilydd fel y gallwn fonitro effeithlonrwydd ein hadeiladau, yr allbynnau a gynhyrchir gan ein technoleg adnewyddadwy ar draws yr ystâd a'r defnydd o'n rhwydwaith gwefru cerbydau trydan.



Bydd y cynllun ar ei newydd wedd yn canolbwyntio ar bum ‘**conglfaen**’ sy’n ceisio rhoi sylw i’r materion ‘**yma ac yn awr**’ sydd angen sylw brys, tra hefyd yn gosod llwybr tuag at **fabwysiadu technolegau newydd** a ffridd o weithio a fydd yn moderneiddio ein gwasanaethau, gan gwrdd â’r disgwyliadau (a chyfyngiadau) defnyddwyr terfynol digidol (ein cleifion a’n pobl) tra hefyd yn darparu mwy o effeithlonrwydd a gwerth ychwanegol ar draws llwybr y claf.

<ul style="list-style-type: none"> • Gydag atebion digidol i fynd i’r afael â heriau bob dydd, mae ein dull yn canolbwyntio ar greu offer arloesol, hawdd eu defnyddio sy’n integreiddio’n ddi-dor i fywyd bob dydd, gan symleiddio prosesau a gwella effeithlonrwydd. <p>Hanfodion bob dydd</p> 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae hyn yn cynnwys rhoi mesurau cadarn ar waith i ddiogelu rhag bygythiadau seiber, diogelu gwybodaeth/cofnodion sensitif, a hyrwyddo amgylchedd ar-lein diogel. <p>Diogeled, Diogelwch a Seiber</p> 	<ul style="list-style-type: none"> • Dod yn arloeswyr ar flaen y gad o ran arloesi technolegol, ysgogi newid trawsnewidiol drwy wthio ffiniau’r hyn sy’n bosibl yn y dirwedd ddigidol, ac ysbrydoli patrymau a phosibiliadau newydd. <p>Arloeswyr Digidol</p> 
<ul style="list-style-type: none"> • Mae trawsnewid digidol yn y byd digidol yn ailwampio cynhwysfawr a strategol o brosesau, technolegau a diwylliant sefydliadol, <p>Trawsnewid,</p> 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae integreiddio di-dor o ddata, gwybodaeth a mewnwelediadau yn cynnwys casglu, dadansoddi a throsi symiau helaeth o ddata crai yn wybodaeth werthfawr y gellir ei gweithredu, gan alluogi gwneud penderfyniadau gwybodus a datblygiadau strategol. <p>Data, Gwybodaeth a Mewnwelediad</p> 	

Mae pob un o’r conglfeini hyn yn cynnwys ystod o opsiynau i’n symud ymlaen, ond mae hwn yn gynllun sy’n cwmpasu pum mlynedd ac o fewn hynny bydd yn rhaid i ni wneud dewisiadau a **blaenoriaethu’r** rhaglenni gwaith pwysicaf a fydd yn dod â’r budd mwyaf i’n cleifion a’n pobl o fewn yr amlen adnoddau sydd ar gael. Ni fyddwn yn gwneud hyn ar ein pen ein hunain, bydd rhai o’n datblygiadau yn gofyn am waith cydweithredol ar draws y system gyda’n Partneriaid bwrdd iechyd ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru, yn enwedig wrth weithredu a defnyddio’r **Adnodd Data Cenedlaethol**. Bydd hyn yn cefnogi sut rydym yn cyflawni ac yn mesur effaith ein cynllun mewn ffordd sy’n seiliedig ar werth.

Bydd ein cynllun digidol yn sail i’n hymrwymiad i ansawdd data i gefnogi'r system ehangach yn GIG Cymru drwy wella ein **darpariaeth ansawdd data a'n cynllun sicrwydd**. Yn olaf, un o'n blaenoriaethau digidol pwysicaf a fydd yn ymddangos yn ein cynllun digidol wedi'i adnewyddu yw **llywodraethu gwybodaeth**, sy'n rhan o'n strategaeth llywodraethu gwybodaeth a'n fframwaith cydymffurfio, wrth i ni geisio gwella cydymffurfedd llywodraethu gwybodaeth yn barhaus ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Mae ein cynllun digidol yn cael ei ddatblygu a bydd ein cerrig milltir allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn cael eu datblygu a'u cytuno erbyn **diwedd Ch2 2024/25**. Rydym wedi ymrwymo yn ein cynllun ariannol i fuddsoddi yn ein galluedd a'n galluoegrwydd digidol i sicrhau ein bod yn gallu bodloni’r heriau a’r cyfleoedd y mae digidol yn eu darparu drwy gydol tair blynedd yr Cynllun Tymor Canolig Integredig hwn. Cyhoeddi’r cynllun fydd y cerrig milltir cyntaf a phwysicaf yn 2024/25.

8. Partneriaethau a'r system ehangach

Amcan Strategol 4 – Datblygu gwasanaethau mewn cydweithrediad

Sut olwg fydd ar dda ar gyfer ein partneriaethau yn 2027?

- Byddwn yn cael ein gweld fel partner credadwy, dibynadwy, blaengar a chydweithredol.
- Bydd gennym weledigaeth a rennir ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans, a gefnogir gan randdeiliaid a chyllidwyr.
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid anhraddodiadol ar atebion a gwasanaethau arloesol.
- Bydd gennym ddiwylliant o ddysgu democrataidd yn sail i'n statws prifysgol.
- Byddwn yn cyfrannu'n weithredol at Les



Beth fydd yn wahanol?




- Gwella sgorau ar fetrigau enw da (i'w bennu)
- Cafwyd cefnogaeth rhanddeiliaid ar gyfer strategaeth dros gyfnod o dair i bum mlynedd.
- Cynnydd yn nifer y prosiectau ymchwil sy'n mynd rhagddynt
- Lefelau uwch o ffrydiau ariannu amgen

8.1 Partneriaethau ac ymgysylltu

Rydym yn parhau i **gydnabod pwysigrwydd partneriaeth a chydweithio** wrth i ni geisio ailddiffinio ein rôl yn system iechyd a gofal Cymru. Mae hyn yn golygu gweithio i ddatblygu perthnasoedd cryf gyda'n partneriaid, yn seiliedig ar wneud y defnydd gorau o adnoddau gwasanaethau cyhoeddus i wasanaethu ein cleifion yn well, gan sicrhau bod ein huchelgeisiau strategol wedi'u halinio.

Mae llawer i'w wneud i gyflawni hyn, gan gynnwys deall mwy am sut mae **ein partneriaid yn ein gweld**, gweithio gyda nhw i adeiladu a chryfhau dealltwriaeth a chyfleoedd ar gyfer cydweithio.

Mae gennym syniadau uchelgeisiol ynghylch sut y gallwn weithio'n wahanol iawn i ddiwallu anghenion cleifion, ond ni allwn gyflawni'r uchelgeisiau hyn ar ein pen ein hunain. Yn 2024/25 a thu hwnt byddwn yn adolygu ein fframwaith ymgysylltu presennol yng ngoleuni adborth a sicrhawyd trwy ystod o fecanweithiau, gan gynnwys **archwiliad enw da newydd**. Bydd yr hyn a ddysgw'n a sut yr ydym yn ymateb yn hollbwysig i gefnogi ein strategaeth tymor hwy.



Er ein bod wedi bod yn gweithio yn ysbryd y Ddeddf ers nifer o flynyddoedd, 2024/25 hefyd fydd y flwyddyn y bydd Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn dod yn ffurfiol o dan **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**. Bydd hyn yn dod â nifer o gyfrifoldebau, gan gynnwys **datblygu a chyhoeddi amcanion llesiant** erbyn diwedd mis Mawrth 2025, yn ogystal â chyfrifoldebau pellach sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf megis ein dyletswyddau o dan Ddeddf yr Amgylchedd a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).

Bydd cysoni ein strategaeth â'r Ddeddf, gan sicrhau nad yw'r hyn a wnawn yn awr ac yn y dyfodol yn rhoi cenedlaethau'r dyfodol dan anfantais ac yn adeiladu GIG cryfach a all ddiwallu eu hanghenion yn elfen bwysig o'r ffordd yr ydym yn symud ymlaen.

Rydym yn parhau i gael ein cynrychioli ar chwech o'r saith **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru**. Mae bod yn weladwy mewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn caniatáu i ni gymryd rhan nid yn unig mewn trafodaethau system gyfan gyda phartneriaid iechyd, gofal a phartneriaid eraill am ein heriau cyfunol, ond hefyd i chwilio am gyfleoedd cydweithredol i wneud gwahaniaeth i'n poblogaeth.

Fel Ymddiriedolaeth, rydym wedi elwa ar gyllid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol drwy'r **Gronfa Integreiddio Rhanbarthol**, er enghraifft i gefnogi gwasanaethau cwmpïadau a threialu cerbyd ymateb iechyd meddwl yn Ne-ddwyrain Cymru. Yn ystod y flwyddyn nesaf, wrth i arian cyhoeddus barhau i fod dan bwysau, mae'n siŵr y bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cymryd diddordeb brwd yn y ffordd y caiff eu harian ei wario a'r canlyniadau i bobl sy'n deillio o'r buddsoddiadau hynny.

Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd



Rydym yn cydweithio â phartneriaid i archwilio datrysiadau ar y cyd i rai o heriau allweddol ein hystâd. Bydd ein dull partneriaeth yn ganolog i ddatblygiad rhwydwaith gwefru cerbydau trydan ledled Cymru wrth i ni geisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar draws ein hystâd ac yn ehangach.

Byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd arloesol o **weithio gyda phartneriaid Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol** i brofi a datblygu dulliau gweithredu newydd, i wneud yn siŵr bod ein hymdrechion ar y cyd yn cael eu targedu, yn effeithiol ac yn gwella mynediad a lles ar gyfer ein poblogaethau.

8.2 Partneriaeth academiaidd a dysgu democrataidd

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn gweithio'n galed i ennill **statws ymddiriedolaeth brifysgol** tra hefyd yn mireinio ei strategaethau ar gyfer ymchwil, arloesi, ac ehangu mynediad at addysg.

Gyda lluo o staff clinigol, gweithredol a chorfforaethol yn meddu ar ystod o ddiddordebau, sgiliau a chymwysterau, ynghyd â strategaeth sefydliadol uchelgeisiol i ailddiffinio'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn wasanaeth ambiwlans, mae'n bwysig ein bod yn galluogi ein pobl, a'n sefydliad, i fod y gorau y gallant fod.

Os ydym am ddatblygu'n wirioneddol fel gwasanaeth ambiwlans blaenllaw, mae'n bwysig ein bod **yn parhau i arloesi, cefnogi ymchwil a datblygiad**, wrth brofi dulliau gweithredu newydd gyda phartneriaid academiaidd a defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i lywio ein cynlluniau tymor hwy.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddatblygu a chyflwyno ymchwil ac arloesi o'r radd flaenaf sy'n dibynnu ar bartneriaethau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Rydym yn gweithredu o fewn seilweithiau ymchwil ac arloesi ehangach lechyd a Gofal Cymdeithasol ac ecosystemau ac yn elwa ar fentrau fel Gweledigaeth Gwyddorau Bywyd y DU, gweledigaeth y DU ar gyfer darparu ymchwil glinigol, ac achub a gwella bywydau: dyfodol ymchwil glinigol.



Rydym yn parhau i gyflawni **Strategaeth Glinigol yr Ymddiriedolaeth: Sicrhau Rhagoriaeth Glinigol** yng Nghymru, sy'n adlewyrchu persbectif polisi Ymchwil Gofal

lechyd Cymru a nodir yn y cysyniad 'Gwneud i Yrfaeod Ymchwil Weithio'. Rydym yn gwreiddio ymchwil ar draws y sefydliad, gan annog a datblygu ein pobl i gefnogi ymchwil ac arloesi o ansawdd uchel sy'n ymateb i anghenion gofal ein poblogaeth, a throsi canfyddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ein modelau gofal. Yn 2023 gwnaethom gyfrannu at lawer o bolisiâu a mentrau cenedlaethol a rhyngwladol lleol, megis Strategaeth Arloesi Cymru a Fframwaith Ymchwil a Datblygu'r GIG a fydd yn llywio ein strategaethau a'n cynlluniau ein hunain.

Cafwyd cadarnhad y bydd y sefydliad yn ennill **statws ymddiriedolaeth brifysgol o fis Ebrill 2024**. Bydd hyn yn nodi diweddglo nifer o flynyddoedd o waith a bydd yn ein helpu i yrru ein ffocws ar arloesi, ymchwil a dysgu i lywio ein datblygiad yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth inni ymdrechu i fodloni gofynion Fframwaith Ymchwil a Datblygu newydd GIG Cymru, sy'n cael effaith ar draws y sefydliad.

Bydd mis Ebrill hefyd yn gweld **cyfarwyddwr anweithredol newydd** o'r byd academiaidd yn ymuno â'n Bwrdd, a fydd yn ychwanegu haen arall o arbenigedd a chymorth at ein huchelgais cynyddol.

